

Gwasanaethau Aelodau'r Cynulliad

2005-2006

(Pedwerydd Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Ty o dan Reol Sefydlog 18.12, yn trafod blwyddyn 1 Ebrill 2005 i 31 Mawrth 2006)

Hydref 2006

Rhagair gan y Llywydd

Rhagair gan y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd Pwyllgor y Ty)

Cynnwys

Aelodau Pwyllgor y Ty a'r is-grwpiau 2005/06 4

Strwythur Staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad 7

Uchafbwyntiau'r Flwyddyn 8

Trefn Lywodraethu Well i Gymru

Agor y Senedd

Cymorth i Aelodau

Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi Seneddol

Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad

Cymru Ehangach

Sylw'r Cyfryngau i'r Cynulliad

Cysylltiadau Allanol a Rhyngwladol

Busnes y Cynulliad 2005–2006 15

Cyfarfodydd Llawn y Cynulliad

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

Uchafbwyntiau'r Pwyllgorau

Y Cyfle i Weld Gwybodaeth 34

Adnoddau Dynol 35

Y Gyllideb 37

Ystâd y Cynulliad 38


Amcanion 2005–06 39

Rhagolwg 45

Atodiad 1 Aelodau'r Pwyllgorau, Presenoldeb ac Ystadegau 46

Atodiad 2 Cyflogau a Lwfansau Aelodau Cynulliad unigol 55

Aelodau Pwyllgor y Ty 2005/2006



Cadeirydd Y Dr John Marek, AC


Y Dirprwy Lywydd

Aelodau




Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas Plaid Cymru


Llywydd




Lorraine Barrett Llafur



Peter Black Democratiaid Rhyddfrydol




William Graham Ceidwadwyr



Janice Gregory Llafur



Jane Hutt Llafur



Owen John Thomas Plaid Cymru

Clerc a Dirprwy Glerc Pwyllgor y Ty

Clerc – Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad.

Dirprwy Glerc – Gareth Brydon, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty.

Is-grwpiau a Grwp Cyswllt Pwyllgor y Ty

Mae gan Bwyllgor y Ty yr is-grwpiau canlynol i'w helpu gyda'i waith. Mae pob

un o'r tri grwp cyntaf a restrir isod yn cynnwys Aelod o bob plaid. Mae'r Grwp

Cyswllt Offer a Chyfleusterau yn cynnwys un aelod o Staff Cymorth yr Aelodau o bob plaid. Cyflwynir cofnodion yr is-grwpiau i Bwyllgor y Ty ac mae'r Pwyllgor yn gwneud penderfyniadau ar unrhyw argymhellion a wneir.

Yr Aelodau

Is-grwp y Celfyddydau

Mae'r is-grwp hwn yn ystyried cynigion i gelf gael ei arddangos ar ystâd y Cynulliad

yn y Bae.

Rosemary Butler (Cadeirydd) Llafur

Eleanor Burnham Democratiaid Rhyddfrydol

Jonathan Morgan Ceidwadwyr

Owen John Thomas Plaid Cymru

Ym mis Mawrth 2006, cytunodd Pwyllgor y Ty y dylai gwaith Is-grwp y Celfyddydau gael ei gynnwys yng ngwaith is-grwp a oedd newydd gael ei ffurfio, sef Is-grwp Adeiladau'r Cynulliad.

Yr Is-grwp Arlwyo

Mae'r is-grwp hwn yn ystyried y trefniadau arlwyo ar gyfer yr Aelodau, y staff a'r cyhoedd yn ystâd Bae Caerdydd.

David Melding (Cadeirydd) Ceidwadwyr

Lorraine Barrett Llafur

Eleanor Burnham Democratiaid Rhyddfrydol

Rhodri Glyn Thomas Plaid Cymru

Yr Is-grwp TG

Mae'r is-grwp hwn yn ystyried y cyfleusterau technoleg gwybodaeth a

chyfathrebu sydd ar gael i'r Aelodau.

Alun Cairns (Cadeirydd) Ceidwadwyr

Eleanor Burnham Democratiaid Rhyddfrydol

Elin Jones Plaid Cymru

Carl Sargeant Llafur

Y Grwp Cyswllt Offer a Chyfleusterau

Mae'r grwp hwn yn rhoi cyfle i Staff Cymorth yr Aelodau a'r Pleidiau

Gwleidyddol godi materion ac ymgynghori ar y gwasanaethau a ddarperir.

Cynrychiolwyr y Grwpiau (Staff Cymorth yr Aelodau)

Mike Penn (Cadeirydd) Llafur

Catherine Adams Plaid Cymru

Claire Bradford Democratiaid Rhyddfrydol

Sarah Sharpe Ceidwadwyr

Is-grwp Adeiladau'r Cynulliad

Ym mis Mawrth 2006, cytunodd Pwyllgor y Ty ar gylich gwaith i Is-grwp Adeiladau i'r Pwyllgor a fyddai'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros faterion ynglyn ag ystâd y Cynulliad y mae Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad (GSC) yn gyfrifol amdany'n nhw. Mae'r rhain yn cynnwys:

Cynnal ffabrig yr adeiladau, trwsio a mân waith, addurno mewnol, gweithiau celf, offer swyddfa;

Y polisi ar ddefnyddio adeiladau, gan gynnwys y Senedd, a newid sut y'u defnyddir, a'r newidiadau y bydd eu hangen yn sgil etholiad,

Y polisi a'r gweithdrefnau diogelwch, gan gynnwys fetio, sganio a'r polisi ar fynediad.

Unrhyw faterion sy'n codi o ddefnyddio'r Senedd a materion sy'n codi drwy wahanu yn y ddeddfwriaeth.

Nid yw cylch gwaith yr Is-grwp yn cynnwys darparu Technoleg Gwybodaeth nac arlwyo a lluniaeth. Bydd y materion hyn yn parhau i gael eu hystyried gan yr Is-grwp TGCh a'r is-grwp Arlwyo yn y drefn honno.

Cytunwyd ar aelodaeth yr Is-grwp newydd ym mis Ebrill 2006 ac mae'n cynnwys Lorraine Barrett yn Gadeirydd gyda Peter Black, William Graham ac Owen John Thomas.

Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad - Strwythur Staff

Mae Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn cefnogi ac yn dilyn arweiniad y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn rhinwedd eu swyddogaethau ffurfiol, ac yn adrodd i Bwyllgor y Ty yn rhinwedd ei swyddogaethau o ran darparu cyfleusterau i'r Aelodau.

Clerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Paul Silk) Yr Ysgrifennydd Parhaol

(Rôl Swyddog Dirprwy Glerc (Dianne Bevan) Cyfrifo a staff)

Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad (Gwen Parry – Cyfarwyddwr)	Gwasanaethau'r Siambr (Andrew George – Pennaeth a Chlerc y Pwyllgor Busnes)	Gwasanaethau Corfforaethol (John Bowley – Cyfarwyddwr, ymddeolodd Hydref 2005)	Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau (Karin Phillips – Pennaeth yr Adran)	Swyddfa Breifat y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd (Adrian Green – Uwch Weithredwr Seneddol)	Cwnsler Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad (Peter Jones)
<ul style="list-style-type: none"> · Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu · Addysg a Gwybodaeth i'r Cyhoedd · Cofnod y Trafodion · Cyfieithu 	<ul style="list-style-type: none"> · Ysgrifenyddiaeth y Siambr · Y Pwyllgor Busnes · Y Pwyllgor Safonau · Y Swyddfa Gyflwyno 	<ul style="list-style-type: none"> · Rheoli Cyfleusterau · Y Swyddfa Ffioedd · Adnoddau Dynol 	<ul style="list-style-type: none"> · Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau · Llyfrgell yr Aelodau · Pwyllgorau Pwnc, Sefydlog a Rhanbarth 	<ul style="list-style-type: none"> · Cymorth ysgrifenyddol a gweinyddol i'r Llywydd a'r Dirprwy · Cymorth yn y Siambr ac mewn Pwyllgorau 	<ul style="list-style-type: none"> · Cyngor Cyfreithiol i Bwyllgorau ac Aelodau'r Cynulliad · Cyngor Cyfreithiol i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad · Cydgysylltu ag OCG · Cyngor Cyfreithiol i'r Llywydd

Uchafbwyntiau'r Flwyddyn: Ebrill 2005 - Mawrth 2006

Yn ystod 2005-06, cyrhaeddwyd dwy garreg filltir yn natblygiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru: cynigion Llywodraeth y DU i ddatblygu ac ymestyn democratiaeth yng Nghymru ac agor y Senedd.

Trefn Lywodraethu Well i Gymru

Ym mis Mehefin 2005, cafodd cynigion y Llywodraeth i ymestyn proses datganoli yng Nghymru eu cyhoeddi yn y Papur Gwyn 'Trefn Lywodraethu Well i Gymru'. Yn sgil ymgynghori, cafodd Mesur ei gyflwyno i'r Senedd yn San Steffan ym mis Rhagfyr 2005 a chafodd y ddeddf a ddeilliodd ohono, Deddf Llywodraeth Cymru 2006, y cydsyniad brenhinol ym mis Gorffennaf 2006. Bydd darpariaethau'r Ddeddf yn cael effaith eang ar y Cynulliad Cenedlaethol ac, yn benodol, mae'n sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddau gorff ar wahân. Bydd y cyfrifoldeb dros ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau i'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei roi i gorff newydd,

Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a fydd yn ymgymryd yn fras, ym mis Mai 2007, â'r swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni gan Bwyllgor y Ty ar hyn o bryd.

Mae llawer o waith Pwyllgor y Ty yn 2005-06 wedi'i wneud gan rag-weld y newidiadau yn y Ddeddf er bod y ffoecs yn ystod y flwyddyn wedi bod ar gyfnod cynllunio'r prosiect pwysig yma. Un o'r gofynion penodol fydd datblygu systemau a gwasanaethau a fydd yn caniatáu i ochr 'seneddol' y Cynulliad weithredu yn annibynnol ar y Llywodraeth. Mae'r rhain yn helaeth ac yn ymddrin â phopeth o gyllid i adnoddau dynol i TGCh. Hefyd, fe fydd angen gweithdrefnau deddfu cwbl newydd er mwyn i'r Cynulliad weithio ac ymarfer y pwerau ehangach sydd wedi'u rhoi gan y Ddeddf. Mae hyn yn ymarfer o bwys ac mae'n cynnwys aelodau a staff drwy'r Gwasanaeth Seneddol cyfan. Yn ystod 2005-06 aeth llawer o waith i mewn i baratoi at y Cynulliad newydd a bydd hyn yn cyflymu yn 2006-07, nes cyrraedd ei anterth gyda'r etholiad ym mis Mai 2007.

Agor y Senedd

Y digwyddiad allweddol arall yn 2005-06 oedd agor y Senedd a'i defnyddio gan y Cynulliad ar gyfer Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd Pwyllgor o ddechrau 2006 ymlaen. Cafodd y Senedd ei hagor yn ffurfiol gan Ei Mawrhydi y Frenhines, yng nghwmni Dug Caeredin a Thywysog Cymru, ar 1 Mawrth. Yn ffurfiol, roedd perchnogaeth yr adeilad yn dal yn nwylo Llywodraeth Cynulliad Cymru nes i'r adeilad gael ei dderbyn yn ffurfiol, tua diwedd 2006 yn ôl y disgwyl. Er hynny, yn ystod 2005-06 daeth rheoli'r Senedd yn rhan o gyfrifoldeb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Dyma brosiect pwysig arall i'r Cynulliad ac roedd yn golygu lefel uchel o ymrwymiad ac amser y staff drwy'r Gwasanaeth Seneddol i gyd.

Cymorth i'r Aelodau

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i'r Aelodau: Cafodd yr Aelodau lwfans ar gyfer offer TGCh ychwanegol a chyflwynwyd amrywiaeth o gynhyrchion newydd. Cyflwynodd yr Is-grwp TGCh argymhellion ar ragor o welliannau yn y ddarpariaeth TGCh, gan arwain at roi dyfais 'Blackberry' i holl Aelodau'r Cynulliad; mae hon yn caniatáu iddyn nhw weld eu dyddiadur, eu system gysylltiadau a'u negeseuon e-bost wrth symud o gwmpas. Mae offer TGCh yr Aelodau wedi'i wella hefyd fel rhan o gontract gwasanaeth TGCh Merlin gan gynnwys cyfleusterau golygu pen-desg newydd. Cafodd prosiectau i roi cysylltedd band eang ychwanegol o gartrefi'r Aelodau eu dechrau hefyd, ochr yn ochr â gwelliannau yn y cyfle i ddefnyddio band eang ar gyfrifiaduron pen-glin.

Y prif newid a gafodd ei gyflwyno oedd y system newydd yn y Senedd, sy'n cysylltu'r Aelodau yn uniongyrchol â'u holl TGCh tra byddan nhw yn y Siambr ac yn uniongyrchol â'r Rhyngryd hefyd. Cafodd system bleidleisio newydd ei gosod hefyd a'i hintegreiddio â'r systemau TGCh.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad: mae holl staff y Gwasanaeth wedi cael cyfrifiadur newydd a meddalwedd wedi'i diweddarau. Mae System Ymchwil yr Aelodau, y gronfa ddata Gweld Gwybodaeth a system gysylltiadau'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi wedi'u huwchraddio.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i Bawb: roedd agor y Senedd yn golygu gwelliannau mawr yn y dechnoleg sy'n cael ei defnyddio gan y Cynulliad i gynnal busnes ac i roi gwybodaeth i'r cyhoedd. Yn ychwanegol at y feddalwedd newydd sy'n cael ei defnyddio gan yr Aelodau yn y Siambr, mae gan bob ystafell bwyllgora ei offer arddangos a'i sgriniau plasma ei hun. Gall aelodau'r cyhoedd weld y trafodion ar bodiau rhyngweithiol sydd wedi'u lleoli drwy'r Senedd, gan gynnwys cyfrifiaduron personol ym mhob un o'r orielau cyhoeddus. Mae rheolaeth ganolog dros y deunyddiau yn caniatáu iddyn nhw gael eu storio mewn un man a'u cyhoeddi ar unrhyw deledu neu bôd rhyngweithiol yn y Senedd. Mae unedau arddangos symudol hefyd wedi'u darparu er mwyn caniatáu gwell cyflwyniadau i'r cyhoedd.

Darledu'r Cynulliad: roedd gosod y Siambr yn cynnwys gosod camerâu darledu pwrpasol, gyda chamerâu wedi'u gosod ar reiliau i'w rheoli o hirbell a system newydd o feicroffonau sain. Yn yr ystafelloedd pwyllgora, cafodd camerâu o hen adeilad y Cynulliad eu haildefnyddio er mwyn cael darledu o bobman. Mae system golygu fideo pen-desg wedi'i chyflwyno er mwyn creu fideos i grynhoi busnes wythnosol y Cynulliad, i'w dangos yn y Senedd.

Drwy'r contract darledu newydd gyda darlledwr y Cynulliad, mae cyfarfodydd allanol y Cynulliad wedi'u darledu ar S4C am y tro cyntaf.

Gwefannau ar wahân ar y Rhyngrywd a'r Fewnrwyd: un o'r camau cyntaf at sefydlu ochr 'seneddol' ac ochr lywodraeth ar wahân yn y Cynulliad oedd datblygu gwefannau ar wahân ar y rhyngrywd a'r fewnrwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, o fis Ebrill 2006 ymlaen. Ym mis Mehefin 2005, cytunodd Pwyllgor y Ty y dylid bwrw ymlaen ag ymarfer cwmpasu i ddatblygu gwefan newydd ar wahân ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r wefan newydd gydymffurfio ym mhob ffordd â thelerau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Cafodd ymarfer tendro llawn ei gomisiynu ym mis Tachwedd 2005.

Hysbysebion Recriwtio AMSS: i hwyluso a gwella gwaith i recriwtio Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad (AMSS), ym mis Ionawr 2006 ystyriodd Pwyllgor y Ty gynigion i ganiatáu i Aelodau'r Cynulliad hysbysebu swyddi gwag yn yr AMSS drwy wefan y Cynulliad, a chytuno ar y cynigion hynny.

Cyfleusterau gofal plant ym Mae Caerdydd: yn gynnar yn 2006, cytunodd Pwyllgor y Ty y dylai astudiaeth ddichonoldeb gael ei chynnal ar ddarparu cyfleusterau gofal plant yn y Cynulliad. Cytunwyd hefyd y dylai amserlen glir gael ei phennu ar gyfer sefydlu'r cyfleusterau yma ac y dylai ystyriaeth gael ei rhoi i wahanol anghenion y defnyddwyr posibl, megis ymwelwyr â'r Cynulliad y byddai arnyn nhw angen gofal plant am gyfnod byr ac Aelodau neu staff y byddai arnyn nhw angen gofal drwy'r dydd.

Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi Seneddol

Cafodd y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi Seneddol ei sefydlu ar 1 Ebrill 2005. Yn ychwanegol at gyfnerthu gwaith y gangen newydd, prif ffocws gwaith y gwasanaeth yn y cyfnod yma oedd paratoi i symud i mewn i adeilad newydd y Senedd. Bu'r cyfieithwyr ar y pryd a'r cofnodwyr yn flaenllaw yng ngwaith profi'r systemau a'r gweithdrefnau yn y Senedd newydd, i baratoi at yr agor swyddogol ar 1 Mawrth 2006.

Yn sgil penderfyniad Pwyllgor y Ty ar 23 Mehefin 2005, cafodd cynllun peilot 6-mis ei sefydlu i roi gwasanaethau cyfieithu ysgrifenedig i Aelodau Cynulliad unigol. Dim ond Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth sy'n defnyddio'r gwasanaeth yma a hynny i gyfieithu busnes etholaeth. Penderfynodd Pwyllgor y Ty wedyn y dylai'r gwasanaeth gael ei ymestyn yn sgil y peilot llwyddiannus.

Cafodd tri chyfieithydd newydd eu recriwtio i'r gwasanaeth, gan gynnwys dau weithiwr cartref rhan-amser, y naill yn y Gogledd-ddwyrain a'r llall yn y Gogledd-orllewin. Ar ochr y Cofnod, ymunodd seondai o Gynulliad Gogledd Iwerddon â Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad am gyfnod o 12 mis. Cafodd uned fusnes newydd ei sefydlu yn y gangen hefyd.

Aeth dau aelod i gynrychioli'r gwasanaeth yng nghynhadledd Cymdeithas Golygyddion Hansard y Gymanwlad a gynhaliwyd yng Nghanaada ym mis Awst 2005. Bu aelodau'r gangen yn rhan hefyd o'r gwaith i baratoi i groesawu cynhadledd Cymdeithas Cofnodion Seneddol Prydain ac Iwerddon (BIPRA) i'w chynnal yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Medi 2006.

Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad

Adolygu Strwythur Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad: ym mis Ionawr 2006, cytunodd Pwyllgor y Ty y dylai George Cubie CB, a oedd newydd ymddeol fel dirprwy i Glerc Ty'r Cyffredin, gynghori Clerc y Cynulliad ar y strwythur y byddai ei angen ar gyfer y Gwasanaeth Seneddol ar ôl i Fesur Llywodraeth Cymru gael ei roi ar waith.

Cynrychiolaeth Seneddol y Cynulliad ym Mrwsel: ym mis Gorffennaf 2005, penododd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad swyddog parhaol ym Mrwsel a staff i gynnal y swyddfa.

Y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd: ym mis Hydref 2005, ategodd Pwyllgor y Ty Reoliadau Gwahaniaethau ar sail Anabledd (Awdurdodau Cyhoeddus) (Dyletswyddau Statudol) 2005. Cafodd y Rheoliadau eu cymeradwyo yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Hydref 2005. Un o'r diwygiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf yw dyletswydd gadarnhaol newydd ar y sector cyhoeddus i hybu cyfle cyfartal i bobl anabl. Mae Pwyllgor y Ty yn chwarae rhan lawn wrth roi'r Rheoliadau ar waith yn y Cynulliad

Cysgodi Aelodau'r Cynulliad: i helpu i ddatblygu staff y Gwasanaeth Seneddol, cymeradwyodd yr Aelodau Gynllun Cysgodi Aelodau Cynulliad. O'u gwirfodd y bydd Aelodau a staff yn cymryd rhan yn y Cynllun.

Cymru Ehangach

Cymorthdaliadau Teithio: yn dilyn llwyddiant y cynllun i roi cymorthdaliadau ar gyfer costau teithio ysgolion y tu allan i ardal leol y Cynulliad ym Mae Caerdydd (gan gynnwys cost teithio i Ganolfan y Gogledd), cytunodd Pwyllgor y Ty y dylid ymestyn y cynllun i helpu ysgolion a cholegau gyda chost teithio i Bwyllgorau Rhanbarth.

Iaith Arwyddion Prydain: ym mis Mawrth 2006, cytunodd yr Aelodau i ddatblygu'r gallu i ddarparu cyfieithiad BSL o drafodion y Cyfarfod Llawn a'r Pwyllgorau a chytuno ar y gwariant a fyddai'n angenrheidiol er mwyn darparu BSL wrth ddarlledu.

Ymwelwyr â'r Cynulliad: agor y Senedd i'r cyhoedd ar 7 Chwefror 2006 oedd y prif ddigwyddiad yng nghyfnod yr adroddiad blynyddol yma. Mae'r Senedd ar agor i'r cyhoedd saith diwrnod yr wythnos ac enynnodd ddiddordeb ar unwaith, gan ddenu ymwelwyr o Gymru a phedwar ban byd. Rhwng 7 Chwefror a 31 Mawrth, cofnodwyd bod 59,454 o bobl wedi ymweld â'r Cynulliad, sef 1,122 y dydd ar gyfartaledd.

Mae'r Gangen Addysg a Gwybodaeth i'r Cyhoedd yn croesawu ac yn helpu ymwelwyr ag adeiladau'r Cynulliad ym Mae Caerdydd a Bae Colwyn. Mae'r Gangen yn darparu timau Gwasanaethau Ymwelwyr, Gwasanaethau Addysg a Chyswllt Tramor ac Allanol er mwyn ymdopi â'r amrywiaeth mawr o ymwelwyr sy'n dod i'r Cynulliad. Mae ganddi ddau dîm arall hefyd, sef Gwasanaeth Gwybodaeth Rhanbarthol a Swyddog Addysg y Gogledd, sy'n gweithio oddi ar y safle er mwyn i'r Cynulliad ymwneud â phobl ledled Cymru.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad, croesawodd y tîm Gwasanaethau Ymwelwyr gyfanswm o 162,133 o bobl a 767 o grwpiau o ymwelwyr i'r Cynulliad; cyd-drefnodd y tîm Cyswllt Tramor ac Allanol 97 o ymweliadau lefel-uchel gan groesawu 1,392 o ymwelwyr o bob rhan o'r byd; a chyflwynodd tîm y Gwasanaeth Addysg 315 o raglenni addysg i 9,083 o fyfyrwyr a ymwelodd â'r Cynulliad ym Mae Caerdydd.

Yn y Gogledd, llwyddodd Canolfan Ymwelwyr Bae Colwyn i wella ar ei pherfformiad blaenorol gan groesawu 3,274 o ymwelwyr a alwodd i mewn a 10 grwp ar ymweliadau a oedd yn cynnwys 188 o ymwelwyr. Bu'r Ganolfan yn fan cyfarfod hefyd i 65 o gyfarfodydd gan gynnwys 711 o aelodau. Ym Mae Colwyn cyflwynodd y Swyddog Addysg 26 o raglenni addysg i 479 o ymwelwyr yng nghanolfan ymwelwyr y Cynulliad a 124 rhaglen arall mewn ysgolion ar gyfer 2,842 o fyfyrwyr ar draws rhanbarth y Gogledd.

Mae gan y Gangen Addysg a Gwybodaeth i'r Cyhoedd ganolfan alwadau ym Mae Colwyn i reoli'r nifer fawr o ymholiadau sy'n dod i law ynglyn â'r Cynulliad. Mae eleni wedi bod yn flwyddyn gynhyrchiol iawn gyda 6,606 o geisiadau am wybodaeth a 5,662 o ymholiadau gan y cyhoedd yn gofyn am wybodaeth am ymweld â'r Cynulliad.

I ffwrdd o'r Cynulliad, aeth Gwasanaeth Gwybodaeth Rhanbarthol y gangen i gyfanswm o 458 o ddigwyddiadau ledled Cymru yn ystod 2005-06, gan gysylltu â 25,170 o aelodau'r cyhoedd.

Sylw i'r Cynulliad yn y Cyfryngau

Yn ystod 2005-2006, cafodd y Cynulliad sylw mewn 778 o ddarnau yn y cyfryngau, sef cynnydd o 76% o'i gymharu â'r flwyddyn cynt, a 118% yn y ddwy flynedd ers i'r Gangen gael ei sefydlu. Yn y Canolbarth a'r Gornllewin ac yn y Gogledd y cafwyd y cynnydd mwyaf, sef cynnydd o 167% a 101% yn eu tro.

Y Senedd: cyfrannodd agoriad brenhinol y Senedd at y cynnydd yn y sylw gyda 55 o erthyglau papur newydd, gan gynnwys darnau yng ngwasg y DU. Cafwyd sylw hefyd ar y teledu yn y DU ac yng Nghymru. Mae'r Senedd ei hun hefyd wedi cyfrannu 67 darn o sylw yn ychwanegol at y sylw a roddwyd i'r agoriad brenhinol, gan drafod ymweliadau â'r Senedd gan grwpiau ac ysgolion, y cyfarfod llawn cyntaf a dyluniad yr adeilad a sut mae'n gweithio.

Sylw i'r Pwyllgorau: sylw i'r Pwyllgorau oedd 251 o eitemau, ac adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes (fel yr oedd bryd hynny) i Drafnidiaeth Ysgolion, adroddiad y Pwyllgor ar Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus, adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar Ailstrwythuro'r Heddluoedd a'r Pwyllgor E.coli a gafodd y sylw mwyaf. Cafodd llawer o adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio sylw sylweddol hefyd.

Eitemau eraill: mae'r eitemau eraill a gafodd sylw nodedig yn cynnwys y Papur Gwyn Trefn Lywodraeth Well i Gymru a'r Mesur dilynol, dadleuon y Cyfarfod Llawn – yn enwedig y rhai ynglyn ag adroddiadau'r Pwyllgorau uchod, presenoldeb y Cynulliad yn nigwyddiadau'r haf a digwyddiadau eraill a drefnwyd gan y Gwasanaethau Addysg a Gwybodaeth i'r Cyhoedd, megis digwyddiadau Diwrnod y Gymanwlad a digwyddiadau Wythnos Democratiaeth Leol.

Cysylltiadau Allanol a Rhyngwladol

Mae'r Cynulliad yn parhau i gynnal rhaglen egniol o gysylltiadau allanol a rhyngwladol gan ganolbwyntio ar weithgareddau rhyng-seneddol yn Ewrop a'r Gymanwlad.

Agoriad brenhinol y Senedd gan Ei Mawrhydi y Frenhines ar 1 Mawrth 2006 oedd y prif ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau mewn cysylltiadau allanol a rhyngwladol yng nghyfnod yr adroddiad yma. Roedd llefarywr a seneddwr o bob rhan o'r Gymanwlad, aelod-wladwriaethau Ewrop a rhanbarthau deddfwriaethol Ewrop yn bresennol yn y seremoni. Sicrhawyd rhagor o gynrychiolaeth ryngwladol ar ffurf cydran ddiplomyddol o blith Consyliaethau'r Deyrnas Unedig ac o blith Cymdeithas Consyliaethau Cymru. O Gymru ei hun roedd Cadeiryddion a Meiri yr awdurdodau unedol yn cynrychioli llywodraeth leol a bu Cyngor Rhyng-ffydd Cymru yn cynrychioli'r cymunedau ffydd. Ychwanegodd cynrychiolwyr ieuenctid a henoed o bob rhan o Gymru at yr amrywiaeth ymhlith y rhai a fu'n bresennol yn y seremoni.

Cafodd y cysylltiadau arbennig o gryf sydd gan y Cynulliad â Senedd De Cymru Newydd eu dathlu yn y seremoni yn adeilad y Senedd. Teithiodd dirprwyaeth o Senedd De Cymru Newydd i fod yn y seremoni ac i roi byrllysg i'r Cynulliad yn rhodd gan Senedd De Cymru Newydd.

Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd Cangen Gymreig Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA) i fod yn llwyfan i ddatblygu cysylltiadau'r Cynulliad ledled y Gymanwlad. Cynrychiolodd Aelodau y Cynulliad yn hanner canfed Gynhadledd Flynyddol y CPA yn Fiji ac yn Seminar Blynyddol Senedd Canada yn Ottawa. Ym mis Hydref ymwelodd dirprwyaeth o'r CPA â Brenhiniaeth Lesotho gan ddatblygu'r posibilrwydd ar gyfer rhagor o gyfnewid rhyng-seneddol â Chynulliad Cenedlaethol Lesotho ac ychwanegu haen arall ar yr amrywiaeth o gysylltiadau sydd eisoes ar gael rhwng y ddwy wlad. Cychwynnodd y Gangen raglen noddi hefyd i helpu Aelodau'r Cynulliad i wneud ymweliadau astudio unigol â deddfwrfeydd eraill yn y Gymanwlad a chroesawodd ymwelwyr o'r Gymanwlad i'r Cynulliad gan gynnwys dirprwyaethau o Tasmania, De Cymru Newydd, Sri Lanka a Tonga.

Mae'r Cynulliad wedi parhau â'i bresenoldeb ar Gorff Rhyng-seneddol Prydain ac Iwerddon, a bu Aelodau'n bresennol mewn cyfarfodydd llawn ac yn cymryd rhan yn ei byllgorau pwnc. Mae'r Dirprwy Lywydd wedi parhau â chyfraniad y Cynulliad at gysylltiadau rhyng-seneddol rhanbarthau Ewrop drwy fod yn bresennol yng nghyfarfodydd llawn ac yng nghyfarfodydd pwyllgor Cynhadledd (Llywyddion) Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop.

Mae amrywiaeth o ymwelwyr swyddogol sydd â diddordeb yn y Cynulliad ac mewn llywodraethu ar lefel is na'r wladwriaeth yn parhau i ymweld. Er bod llawer o grwpiau ac unigolion o'r fath yn gofyn yn uniongyrchol am gael ymweld, mae llawer yn dod drwy gyrff sy'n gyfrifol am gysylltiadau rhyngwladol gan gynnwys Swyddfa Dramor a Chymanwlad y DU, y Cyngor Prydeinig, Undeb Rhyng-seneddol Prydain, Cymdeithas Hansard a Sefydliad Thomson. Roedd yn dda gan y Llywydd ac Aelodau'r Cynulliad gefnogi cynhadledd y Cyngor Prydeinig yng Nghaerdydd ar gyfranogiad menywod mewn gwleidyddiaeth ym mis Tachwedd. Daeth hyn â chynhadledd ryngwladol o seneddwr, academyddion ac ymgyrchwyr i'r Cynulliad ar gyfer derbynriad a gynhaliwyd gan y Llywydd a bu'n gyfle i Aelodau'r Cynulliad chwarae rhan weithgar yn nhrefodion y gynhadledd, drwy'r Grwp Pob Plaid ar Fenywod mewn Democratiaeth.

Busnes y Cynulliad 2005-06

Cyfarfodydd Llawn y Cynulliad

Cynhaliwyd 72 o Gyfarfodydd Llawn yn ystod blwyddyn ariannol 2005-06,

gyda chymorth gweinyddol a chyngor gan staff Gwasanaeth Seneddol y

Cynulliad. Cynhaliwyd y cyfarfodydd ar brynhawn Mawrth a Mercher, rhwng 2.00pm a 5.30pm.

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

Yn 2005-06, atebodd Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (MRS) ryw 2,400 o ymholiadau gan yr Aelodau unigol, paratoi tua 400 darn o waith briffio i'r Pwyllgorau, cyhoeddi 40 o Bapurau Ymchwil a chynhyrchu dros 40 o Becynnau Dadl i ategu busnes y Cyfarfodydd Llawn. Cafodd 96% o'r ymholiadau eu hateb o fewn y dyddiadau cau y cytunwyd arnyn nhw.

Cafodd rhaglen papurau ymchwil yr MRS ei thargedu'n gynyddol ar faterion a oedd yn berthnasol i ddeddfau neu bolisiau. Roedd hanner y 40 o Bapurau Ymchwil yn ymwneud â darnau penodol o ddeddfwriaeth neu'n canolbwyntio'n bendant ar faterion deddfwriaeth. Roedd papur misol i'r Pwyllgor Busnes, a Phanel y Cadeiryddion, yn dilyn y Mesurau hynny a gyfeiriwyd at Bwyllgorau'r Cynulliad ar eu hynt drwy Senedd San Steffan a'r Cynulliad, ac yn monitro sut roedd y pwerau fframwaith yn cael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth sylfaenol.

Yn sgil datblygu swyddfa'r Gwasanaeth Seneddol ym Mrwsel, tua diwedd 2004, llwyddwyd i arddel agwedd fwy strategol at ystyried materion yr UE yn y Pwyllgorau, o dan arweiniad ein Dadansoddydd Polisi UE ym Mrwsel ochr yn ochr ag ymchwilwyr a chlercod. Aeth Swyddfa Brwsel ati hefyd i drefnu ymweliadau a rhaglenni i bedair dirprwyaeth o Aelodau i Frwsel yn ogystal ag ymweliadau mynych gan Aelodau'r Cynulliad sy'n eistedd ar Bwyllgor y Rhanbarthau. Ym mis Tachwedd 2005, ar y cyd â staff Swyddfa UE Llywodraeth Cynulliad Cymru, ail-leolodd y Swyddfa i ganol Brwsel. Mae'r swyddfa newydd yn darparu 'gweithfannau poeth' a gwell cyfleusterau i'r Aelodau sy'n ymweld â hi.

Roedd datblygiadau eraill y flwyddyn yn cynnwys:

sefydlu fforwm i staff cymorth yr Aelodau gael rhoi adborth ar y Gwasanaeth Ymchwil.

darparu hyfforddiant pwrpasol ar graffu ar gyllidebau i 38 o Aelodau a 12 o'u staff cymorth

sefydlu swydd benodol i swyddog datblygu cydraddoldeb er mwyn gwella sut mae'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwasanaethau'r Pwyllgorau yn helpu Aelodau a Phwyllgorau mewn perthynas â chyfle cyfartal.

ailstrwythuro'r timau ymchwil a secondio arbenigydd cyllid cyhoeddus o Gynulliad Gogledd Iwerddon i sefydlu tîm arbenigol newydd i gryfhau'r cyngor sy'n cael ei roi i'r Aelodau ar faterion ariannol ac ystadegol;

ymgyrdd â'r cyfrifoldeb dros gaffael holl adnoddau'r llyfrgell fel bod Llyfrgell yr Aelodau, erbyn diwedd y flwyddyn, yn gweithredu bron yn gyfan gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru;

gwella Bwletin Gwybodaeth Wythnosol y Cynulliad i roi sylw i bynciau penodol ac i ddilyn hynt Mesurau a datblygu tudalennau mewnwyd i ddilyn datblygiadau ar Fesur Llywodraeth Cymru.

Uchafbwyntiau'r Pwyllgorau

Pwyllgorau Pwnc, Pwyllgorau Sefydlog a Phwyllgorau Eraill (yn cynnwys Pwyllgorau Ychwanegol, Is-bwyllgorau a'r Pwyllgor Craffu ar Waith Prif Weinidog y Cynulliad).

Bu'r Pwyllgorau Pwnc yn cyfarfod bob yn ail wythnos o fis Ionawr 2006 ymlaen.

Cynhaliwyd cyfanswm o 222 o gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol yn 2005-06, sef 116 o gyfarfodydd pwyllgorau pwnc, 63 o gyfarfodydd pwyllgorau sefydlog, 37 o gyfarfodydd pwyllgorau ychwanegol ac is-bwyllgorau, pedwar cyfarfod Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio a dau gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu ar Waith Prif Weinidog y Cynulliad.

Hefyd trefnodd Gwasanaeth y Pwyllgorau 36 o gyfarfodydd anffurfiol ac 16 o ymweliadau gan bwyllgorau pwnc a phwyllgorau sefydlog.

Derbyniodd y Pwyllgorau 1,122 o bapurau, ac o'r rheiny cafodd 412 eu cynhyrchu gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad. Cafodd 98% o'r papurau eu hanfon allan i'r pwyllgorau pwnc a'r pwyllgorau sefydlog yn Saesneg o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfod perthnasol, fel y nodir yn y Rheolau Sefydlog. 66% oedd y ffigur cyfatebol ar gyfer papurau Cymraeg.

Cafodd 418 o friffiau ymchwil eu darparu yn benodol i ategu cyfarfodydd ac ymweliadau pwyllgorau.

Y Pwyllgor Archwilio

Cynhaliodd y Pwyllgor 10 cyfarfod ffurfiol yn ystod 2005-06. Er mwyn bod yn fwy agored a gwella cyfle'r cyhoedd i weld gwaith y Pwyllgor, cynhaliodd y Pwyllgor ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr 2005 yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

Edrychodd y Pwyllgor ar bynciau o bob rhan o rychwant sector cyhoeddus Cymru, o bwnc amserol iawn diogelu staff y GIG rhag trais ac ymosodgarwch i gyllid Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Cyhoeddodd y Pwyllgor wyth adroddiad, a oedd gyda'i gilydd yn cynnwys 43 o argymhellion ar gyfer gwella gwariant cyhoeddus a chyflwyno gwasanaethau. Ystyriodd y Pwyllgor wyth ymateb oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru ar yr adroddiadau yma. Ymdriniodd yr ymatebion yma â 67 o argymhellion.

Daeth pedair thema bwysig yng ngwaith craffu'r Pwyllgor i'r amlwg yn ystod y flwyddyn: arferion cadarn mewn cyflogaeth; rheoli risgiau; caffael yn effeithiol; a chydweithio ag eraill.

Dechreuodd cyfnod penodiad Jeremy Colman yn Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 1 Ebrill 2005. Ar yr un diwrnod, daeth Swyddfa Archwilio Cymru i fodolaeth. O dan arweiniad yr Archwilydd Cyffredinol, mae'n uned archwilio ac arolygu unedig ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru ac mae'n chyflwyno cyfundrefn ddi-fwlch ar gyfer archwilio ac arolygu ar draws amrywiaeth mawr o wasanaethau cyhoeddus. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n derbyn adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol ar bob rhan o sector cyhoeddus Cymru ac eithrio llywodraeth leol.

Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau o dan Reol Sefydlog 12.2 (i), yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2005, ystyriodd y Pwyllgor amcangyfrif yr Archwilydd Cyffredinol o incwm a gwariant am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2007. Yn yr un cyfarfod ystyriodd y Pwyllgor raglen ddrafft yr Archwilydd Cyffredinol o archwiliadau gwerth am arian 2006-07. Cafodd y rhaglen derfynol o archwiliadau gwerth am arian ar gyfer 2006-07 ei chyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2006.

Y Pwyllgor Busnes

Y Pwyllgor Busnes sy'n rhoi cyngor ar reoli busnes y Cynulliad ac arferion a

gweithdrefnau cyffredinol y Cynulliad. Cyfarfu'r Pwyllgor yn wythnosol bob dydd Mawrth yn ystod sesiynau'r Cynulliad. Cadeirydd y Pwyllgor oedd Jenny Randerson AC, a mynychwyd y Pwyllgor gan Weinidog Busnes y Cynulliad, Rheolwr Busnes o'r tair plaid arall a'r Dirprwy Lywydd. Yn ystod 2005-06, fe ystyriodd y Pwyllgor 1,483 o bapurau i gyd. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat a chaiff y cofnodion eu cyhoeddi chwe wythnos ar ôl pob cyfarfod.

Y Pwyllgor ar Bapur Gwyn Trefn Lywodraethu Well i Gymru

Cafodd y Papur Gwyn ar ddyfodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trefn Lywodraethu Well i Gymru) ei gyhoeddi ar 15 Mehefin 2005. Roedd yn cynnwys cynigion ar gyfer newidiadau yn strwythur y Cynulliad, ei bwerau deddfu a'i drefniadau etholiadol.

Fel rhan o'i ymateb i'r ymgynghori ar y Papur Gwyn, sefydlodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Bwyllgor arbennig i gymryd tystiolaeth gan ffigurau blaenllaw ar lwyfan gwleidyddol a chyfansoddiadol Cymru. Cylch gwaith y Pwyllgor oedd:

Ystyried y cynigion a nodwyd yn y Papur Gwyn i'r graddau eu bod yn berthnasol i strwythur newydd arfaethedig y Cynulliad a'i bwerau deddfwriaethol arfaethedig;

Cymryd tystiolaeth gan sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb uniongyrchol yn strwythur newydd arfaethedig y Cynulliad a'i bwerau deddfwriaethol arfaethedig.

Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn nifer o gyfarfodydd yn ystod mis Mehefin a Gorffennaf 2005, gan ddirwyn ei waith i ben cyn toriad yr haf a chan adrodd i'r Cynulliad ar 13 Medi 2005. Cafodd yr adroddiad, y cytunodd y Cynulliad arno, ei anfon at Ysgrifennydd Gwladol Cymru fel ymateb ffurfiol y Cynulliad i'r ymgynghori ar y Papur Gwyn.

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Cynhaliodd y Pwyllgor 15 cyfarfod ffurfiol yn ystod 2005-06, gan gynnwys dau gyfarfod allanol yng Nghastell Cyfarthfa, Merthyr Tudful a Stadiwm Liberty, Abertawe.

Adolygu polisiau oedd prif ffocws gwaith y Pwyllgor o hyd. Cafodd adroddiad y Pwyllgor o dan y teitl "Y Celfyddydau, Chwaraeon ac Adfywio Cymunedol" ei drafod yn y cyfarfod llawn ym mis Ebrill 2005. Yn y mis Ionawr canlynol, cafodd ei adroddiad "Dawns yng Nghymru: Adolygiad" ei drafod yn y cyfarfod llawn hefyd, ar ôl i'r adolygiad a ddechreuodd ym mis Tachwedd 2004 gael ei orffen. Ymwelodd y Pwyllgor â Senedd yr Alban ym mis Mehefin fel rhan o'i waith i gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad dawn.

Dechreuodd y Pwyllgor adolygiad byr ar y Diwydiant Papurau Newydd Saesneg yng Nghymru yn sgil cais gan Aelodau unigol a dadl yn y Cyfarfod Llawn ym mis Rhagfyr 2005 ar grwp Trinity Mirror yng Nghymru. Yn ystod cyfnod yr adroddiad yma, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ffurfiol gan amrywiaeth o grwpiau papurau newydd ac Ysgol Newyddiaduraeth Caerdydd ar y materion sy'n wynebu papurau newydd Saesneg eu hiaith yng Nghymru.

Dechreuodd y Pwyllgor adolygiad ar bêl-droed yng Nghymru ym mis Chwefror 2006 gyda throsolwg ar y materion oddi wrth Gyngor Chwaraeon Cymru. Cafodd hyn ei ddilyn gan dystiolaeth oddi wrth amrywiaeth o fuddiannau pêl-droed. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau ym mis Rhagfyr 2006.

Yr unig ddarn o ddeddfwriaeth sylfaenol a gyfeiriwyd at y Pwyllgor gan y cyfarfod llawn oedd Mesur y Loteri Genedlaethol a gafodd ei ystyried ddwywaith yn ystod y flwyddyn. Ni chyflwynodd y Pwyllgor argymhellion ar gyfer newid.

Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Cynhaliodd y Pwyllgor 18 o gyfarfodydd ffurfiol, gan gynnwys un cyfarfod allanol ym Mhowys i drafod economi'r Canolbarth.

Ym mis Hydref 2005, dechreuodd y Pwyllgor adolygiad ar y polisi gwyddoniaeth yng Nghymru. Penododd y Pwyllgor y Dr Robin Fears yn gynghorydd arbenigol i'r adolygiad a chafodd grwp cyfeirio o gynrychiolwyr o nifer fach o gyrff allweddol ei sefydlu i gynghori ar y cylch gorchwyl ac i ddod o hyd i gyrff i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor. Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ym mis Medi 2006.

Parhaodd y Pwyllgor i graffu ar y Gweinidog ynglyn â'r dewisiadau ar gyfer y trefniadau yn sgil uno'r WDA a Bwrdd Croeso Cymru yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cafodd nifer o faterion manwl ynglyn â throsglwyddo staff a thelerau ac amodau eu codi, yn ogystal â chost yr uno a chynnal y cynlluniau pensiwn, sydd eisoes yn bodoli, i'r Cynulliad. Cyfarfu'r Pwyllgor hefyd â'r Undebau Llafur sy'n cynrychioli'r staff y mae'r uno wedi effeithio arnyn nhw, yn ogystal â'r CBI a CLILC.

Ym mis Mehefin 2005, cyfarfu'r Pwyllgor â chynrychiolwyr o'r Adran Drafnidiaeth i drafod proses gosod masnachfrait Great Western. Roedd y Pwyllgor yn pryderu nad ymgynghorwyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru cyn i'r Gwahoddiad i Dendro gael ei gyhoeddi, gan deimlo nad oedd y gwahoddiad yn adlewyrchu polisiâu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu gwasanaethau rheilffyrdd yn y De, o gofio bod mwy na 60% o'r trenau ar yr adegau prysur rhwng Abertawe a Chaerdydd yn cael eu darparu gan fasnachfrait Great Western. Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd y Cadeirydd at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth i nodi pryderon y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn dal i gredu ei bod yn flaenoriaeth sicrhau'r fantais orau posibl i Gymru o raglen Cronfeydd Strwythurol Ewrop ac mae'n cael adroddiadau rheolaidd gan Brif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a Chadeiryddion Pwyllgorau Monitro'r Rhaglenni.

Ar ddiwedd y flwyddyn, cafodd enw'r Pwyllgor ei newid i Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau i adlewyrchu'r newid yn nheitl Gweinidog y Cynulliad.

Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

Cynhaliodd y Pwyllgor 18 o gyfarfodydd ffurfiol yn ystod 2005-06 gan gynnwys un ym Mhort Talbot. Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad ar ail gyfnod ei adolygiad polisi o Anghenion Addysgol Arbennig ar Asesiadau Statudol (Datganiadau) . Bwriedir cyhoeddi'r adroddiad ym mis Mai 2006. Cafodd y Pwyllgor gymorth yn ei waith ar yr adolygiad gan grwp cyfeirio allanol.

Parhaodd y Pwyllgor i graffu ar gyrff perthnasol mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru gan gynnwys y Cyngor Cenedlaethol ar Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (ELWa); Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC); Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (GTCW); yr Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC); a Gyrfa Cymru.

Cafodd Aelodau'r Pwyllgor gyfarfodydd rapporteur hefyd â chyrff addysg a hyfforddiant, a fu'n ddefnyddiol o ran sicrhau gwybodaeth fanwl o faterion addysg a hyfforddiant a hefyd o ran meithrin perthnasoedd adeiladol â'r gwahanol gyrff.

Ym mis Mawrth 2006, bu'r Pwyllgor yn craffu ar y Mesur Addysg ac Arolygiadau, a oedd wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor gan y Cynulliad Cenedlaethol. Ym mis Chwefror 2006, ar gais y Pwyllgor ar Fesur Llywodraeth Cymru, craffodd y Pwyllgor ar y gweithdrefnau arfaethedig ym Mesur Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth ar ôl mis Mai 2007.

Craffodd y Pwyllgor hefyd ar naw eitem o is-ddeddfwriaeth yn ystod y flwyddyn gan gynnwys y ddeddfwriaeth ynglyn â chyfuno'r Cyngor Cenedlaethol ar Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ac Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru.

Ym mis Mawrth 2006, cymerodd aelodau'r Pwyllgor ran mewn cyd-gyfarfod â'r Pwyllgorau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a Chyfle Cyfartal i ystyried adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant.

Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau craffu manwl hefyd ar Ddysgu Cysylltiedig â Gwaith, ac ar Adolygiad Furlong o drefniadau Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yng Nghymru.

Ar ddiwedd y flwyddyn, cafodd enw'r Pwyllgor ei newid i Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i adlewyrchu newid yn nheitl Gweinidog y Cynulliad.

Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Cynhaliodd y Pwyllgor 16 o gyfarfodydd ffurfiol yn ystod 2005-06, gan gynnwys cyfarfod allanol yn Hwlfordd ar 23 Mawrth 2006. Hefyd, ar 9 Mehefin 2005, cynhaliodd ddau ymweliad rapporteur â chyrrff cyhoeddus sy'n cael eu noddi gan y Cynulliad, sef Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio a chyflwynodd argymhellion i'r Gweinidog ar eu gwaith yn ei gyfarfod ar 5 Hydref 2005.

Cwblhaodd a chyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ei drydydd ymchwiliad ar 'Bodloni Targedau Tirlenwi ac Ailgylchu'. Trafododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i'w 25 o argymhellion ym mis Tachwedd 2005 ac ym mis Mawrth 2006 cafodd ddiweddariad ar sut roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi'r argymhellion ar waith. O ran ail ymchwiliad y Pwyllgor ar TB Buchol, parhaodd y Pwyllgor i gael diweddariadau rheolaidd gan y Gweinidog ar drin y clefyd. Er hynny, yn sgil cyflwyno profion cyn symud a'r cynnig y dylid newid y tablau ar gyfer cyfrifo iawndal, ymwelodd y Pwyllgor ag Iwerddon ym mis Mawrth 2006 i edrych ar faterion lles anifeiliaid, i drafod y problemau sy'n wynebu'r diwydiant amaethyddiaeth, ac i glywed gan Lywodraeth Iwerddon am eu polisiâu nhw ar gyfer dileu'r clefyd.

Cafodd pedwar Mesur eu cyfeirio at y Pwyllgor gan y cyfarfod llawn yn dilyn Araith y Frenhines ar 21 Mehefin 2005: Mesur yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig; y Mesur Tir Comin; y Mesur Lles Anifeiliaid a'r Mesur Morol. Ar 22 Medi 2005, cytunodd y Pwyllgor ar brotocol ar sut y byddai'n craffu ar ddeddfwriaeth sylfaenol. Awgrymodd y Pwyllgor welliant i gymal 38 (2) o Fesur yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig, a gafodd ei gyflwyno a'i dderbyn maes o law fel un o welliannau Llywodraeth y DU i'r Mesur. Craffodd y Pwyllgor hefyd ar 24 eitem o is-ddeddfwriaeth.

O ran monitro a chraffu ar ddeddfwriaeth Ewrop, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth a chyflwyno adroddiad ar Reoliad REACH (Ymchwil; Cloriannau ac Awdurdodi Cemegau). Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru wneud llawer mwy i godi ymwybyddiaeth ymhlith mentrau bach a chanolig o oblygiadau'r Rheoliad ar gyfer costau ac arbenigedd. Ym mis Tachwedd 2005 a mis Ionawr 2006, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan randdeiliaid allweddol gyda golwg ar ddylanwadu ar bedair echel y Cynllun Datblygu Gwledig dilynol ar gyfer 2007-2013. Cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad ar ei argymhellion i'r Gweinidog ym mis Chwefror 2006.

Ym mis Gorffennaf 2005, cynhaliodd Cadeirydd y Pwyllgor dderbyniad ar y cyd â'r Llywydd yn Sioe Frenhinol Cymru i godi ymwybyddiaeth o waith y Pwyllgor gyda'r rhanddeiliaid allweddol.

Cyfarfu pedwar Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio, yn ystod y flwyddyn, bob un ohonyn nhw'n cynnwys pedwar aelod o Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, i bwysu a mesur 11 o achosion.

Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

Cynhaliodd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal 10 o gyfarfodydd ffurfiol, un ohonyn nhw yng Nghanolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad, cafodd llawer o amser y Pwyllgor ei ddefnyddio i gymryd tystiolaeth mewn cysylltiad â'r adolygiad polisi o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar gyfer pobl anabl ifanc.

Themâu 'addysg, 'hyfforddiant a chyflogaeth' a 'chcludiant' oedd prif ganolbwynt y sesiynau tystiolaeth. Parhaodd y Pwyllgor i weithio gyda'r grwp cyfeirio o bobl anabl ifanc a chael ei gynghori ganddo. Ym mis Rhagfyr 2005, ymgwymerodd aelodau o'r Pwyllgor ag adolygiad byr ar waith y grwp a chynnig cyfres o argymhellion a oedd yn anelu at wella cyfranogiad ac ymglymiad. Ym mis Mawrth 2006 ystyriodd y Pwyllgor y materion allweddol a oedd wedi'u nodi gyda golwg ar gael adroddiad terfynol erbyn diwedd y flwyddyn galendr.

Ym mis Tachwedd 2005, trafododd y Pwyllgor weithredu'r 27 o argymhellion yn ei adroddiad Prif-ffrydio Cydraddoldeb gyda Gweinidog Busnes, Cydraddoldebau a Phlant y Cynulliad, Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad a'r Dirprwy Lywydd, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Cadeirydd Pwyllgor y Ty.

Parhaodd y Pwyllgor i wyllo sut roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi'r argymhellion yn ei adroddiad ar ddarparu Gwasanaethau i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru ar

waith drwy gyfrwng ei weithgor anffurfiol.

Ym mis Mehefin 2005, yn sgil newid yn y Rheolau Sefydlog a ddarparodd i'r Cynulliad gael cyfeirio deddfwriaeth sylfaenol at y Pwyllgor i'r Pwyllgor graffu'n fanwl arni, ystyriodd y Pwyllgor y Mesur Cydraddoldeb. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac Aelodau Seneddol ac Arglwyddi Cymru i gefnogi gwelliant i'r Mesur i gynnwys amddiffyniad rhag gwahaniaethu wrth ddarparu cyfleusterau, nwyddau a gwasanaethau ar sail tueddfryd rhywiol, sef gwelliant a gafodd ei fabwysiadu wedyn.

Ystyriodd y Pwyllgor agweddau cydraddoldeb Mesur Llywodraeth Cymru ac ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cadw'r ddyletswydd cydraddoldeb statudol ac i ddarganfod i ba raddau yr oedd y Mesur wedi'i asesu o safbwynt ei effaith ar gydraddoldeb. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru na fyddai'r ddyletswydd cydraddoldeb statudol yn cael ei lleihau o dan y Ddeddf newydd.

Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried y Gorchymyn Partneriaethau Sifil, Rheoliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Awdurdodau Cyhoeddus) (Dyletswyddau Statudol) 2005 a Chod Statudol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ar Gydraddoldeb Hiliol mewn Tai (Cymru).

Yn unol â Rheol Sefydlog 14.2, mae'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau blynyddol y tri chomisiwn cydraddoldeb statudol ac Uned Cydraddoldebau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Ym mis Mawrth 2006, cymerodd aelodau'r Pwyllgor ran mewn cyd-gyfarfod â'r Pwyllgorau Addysg a Dysgu Gydol Oes, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i holi'r Comisiynydd Plant ar ei adroddiad blynyddol.

Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

Cynhaliodd y Pwyllgor naw cyfarfod ffurfiol yn ystod 2005-06. Derbyniodd aelodau'r Pwyllgor friffiad hefyd gan uwch-swyddogion Llywodraeth y DU o'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad ynghylch Llywyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd a ddaliwyd gan y DU yn ystod rhan olaf 2005. Hefyd, cymerodd y Pwyllgor ran mewn prosiect peilot a gafodd ei drefnu gan Rwydwaith Monitro Sybsidiaredd Pwyllgor y Rhanbarthau. Roedd y prosiect yn golygu ystyried dwy Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar ansawdd aer ac ar ddefnyddio egwyddor sybsidiaredd. Cafodd amryw o faterion yn y gweithdrefnau eu tanlinellu ac mae'n debyg y bydd ail brosiect peilot yn cael ei drefnu yn ystod 2006.

Ymhellach, ategodd y Pwyllgor brotocol Craffu Deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd a sefydlwyd ar ddiwedd blwyddyn gynllunio 2004-05, gan gyflwyno papur i Bwyllgor y Ty a dderbyniwyd hefyd ym mis Ionawr 2006. Yn ystod cyfnod yr adroddiad, ystyriodd y Pwyllgor sawl cyfarwyddeb ac mae wedi dewis nifer o eitemau i graffu arnyn nhw o raglen waith y Comisiwn yn 2006. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro gwaith y Pwyllgorau pwnc ar graffu deddfwriaeth neu bolisiau'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gael diweddariadau cyson gan y Prif Weinidog ar Strategaeth Lisbon, cysylltiadau â gwledydd eraill yn Ewrop a Chronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd. Cafodd y Pwyllgor newyddion i'w croesawu, sef bod y Cyngor Ewropeaidd wedi cytuno ym Mrwsel ar Bersectifau Ariannol yr UE am y cyfnod o chwe blynedd sy'n dechrau yn 2007. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at y penderfyniad ar faint yn union o arian Cydgyfeirio ac arian Cystadleurwydd fydd ar gael i Gymru.

Mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod â Llysgenhadon Awstria, Estonia a Lithwania yn ystod y flwyddyn, ac â chynrychiolwyr o sawl gwlad yn yr Eisteddfod Gydwladol yn Llangollen. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi croesawu cynrychiolwyr y Cyngor Prydeinig ac wedi derbyn adroddiadau gan Oxfam Cymru, Cymorth Cristnogol a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru.

Parhaodd y Pwyllgor i gadw ei gysylltiadau â Phwyllgorau Ewropeaidd eraill y DU ac â Phwyllgor y Rhanbarthau. Mae hefyd wedi ymweld â Brwsel a chyfarfod â chynrychiolwyr Pwyllgor y Rhanbarthau.

Y Pwyllgor ar Fesur Llywodraeth Cymru

Cafodd Mesur Llywodraeth Cymru ei gyhoeddi ar 8 Rhagfyr 2005 ac roedd yn anelu at weithredu'r cynigion a gafwyd yn y Papur Gwyn ar Drefn Lywodraethu Well i Gymru a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2005. Sefydlodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Bwyllgor arbennig ar 18 Ionawr 2006 i fynd ati i graffu'n fanwl ar y darpariaethau yn y Mesur.

Cylch gorchwyl y Pwyllgor, y cytunwyd arno gan y cyfarfod llawn, oedd:

Ystyried y cynigion a nodwyd yn y Mesur;

Ystyried unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r Mesur a bennir gan y Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor yn adrodd ar ei argymhellion pan fo'n briodol, ac os bydd y Pwyllgor yn teimlo ei fod yn briodol, gall wneud hynny trwy gyflwyno cynigion yn unol â Rheol Sefydlog 33.9. Bydd y Pwyllgor yn peidio â bod ar y dyddiad y caiff y Mesur Gydsyniad Brenhinol.

Tynn iawn oedd yr amser ar gyfer ystyried y Mesur ac roedd y Pwyllgor ar y Papur Gwyn Trefn Lywodraethu Well i Gymru eisoes wedi cymryd tystiolaeth helaeth ar gynigion y Llywodraeth ar gyfer datganoli yng Nghymru. Gan hynny, daeth Pwyllgor y Mesur i'r casgliad na fyddai'n cymryd rhagor o dystiolaeth, gan hoelio sylw yn hytrach ar archwiliad manwl ar y cynigion yn y Mesur. Gwnaed hyn drwy ystyried cynigion ar gyfer gwelliannau i'r Mesur. Mae cofnod llawn o'r gwelliannau a gynigiwyd ar gael yn adroddiad y Pwyllgor.

Cynhaliodd y Pwyllgor wyth cyfarfod i graffu ar y Mesur a chyflwynodd ei adroddiad i'r cyfarfod llawn ar 22 Mawrth 2006.

Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cynhaliodd y Pwyllgor 14 o gyfarfodydd ffurfiol yn ystod 2005-06.

Ym mis Mawrth 2005, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar yr adolygiad ar y berthynas rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ystyriodd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i'r argymhellion ar 13 Gorffennaf. Derbyniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bob un o argymhellion y Pwyllgor.

Ym mis Hydref 2005, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar yr adolygiad ar Safon 2 yn Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Iechyd Meddwl – Grymuso Defnyddwyr a Gofalwyr, a oedd hefyd yn cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed. Cafodd ymateb ysgrifenedig y Gweinidog i'r adroddiad ei drafod gan y Pwyllgor ar 8 Mawrth 2006. Derbyniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru 10 o argymhellion yn llawn a dau yn rhannol.

Dechreuodd y Pwyllgor hefyd ar adolygiad ar Wasanaethau Canser i Bobl Cymru. Cafodd ymarfer cwmpasu ei gynnal ym mis Ebrill 2006, a chafodd y canlyniadau eu defnyddio i fwydo cylch gorchwyl ymarfer ymgynghori llawn. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yng ngwanwyn 2007.

Ym mis Chwefror 2006, ystyriodd y Pwyllgor ddarpariaeth gwasanaethau iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg ac ieithoedd eraill a sut mae'r NHS yn ymateb i anghenion diwylliannol gwahanol. O ganlyniad i hyn, cytunodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n darparu papur ar fentrau i helpu proffesiynolion Cymraeg eu hiaith i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys gwybodaeth am gyrsiau i alluogi meddygon sy'n siarad Cymraeg i gyfweled â'u cleifion yn Gymraeg.

Ystyriodd y Pwyllgor 21 darn o is-ddeddfwriaeth, yn unol â'r protocol y cytunwyd arno. Cafodd pum Mesur eu cyfeirio at y Pwyllgor gan y cyfarfod llawn yn sgil araith y Frenhines. Craffwyd ar bedwar o'r Mesurau, Mesur Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru); y Mesur Iechyd; y Mesur Plant a Mabwysiadu; a Mesur Iawndal y GIG drwy ddefnyddio protocol y Pwyllgor a chyflwynwyd adroddiadau gerbron y Cynulliad a'u hanfon at y Gweinidog. Chafodd y Mesur Iechyd Meddwl mo'i gyhoeddi.

Ym mis Mehefin 2005, sefydlodd y Pwyllgor yr Is-bwyllgor Craffu o dan Reol Sefydlog 8.27 yn gyfrwng ychwanegol i graffu ar waith y Gweinidog. Roedd yr Is-bwyllgor yn cynnwys holl aelodau'r prif Bwyllgor ac eithrio'r Gweinidog. Cynhaliodd yr Is-bwyllgor ddau gyfarfod yn 2005-06 – ym mis Mehefin 2005 ac ym mis Tachwedd 2005 – gan graffu ar waith y Gweinidog mewn amryw o bynciau. Parhaodd y Pwyllgor i dderbyn adroddiadau rheolaidd oddi wrth y Gweinidog.

Ym mis Mawrth 2006, cymerodd aelodau'r Pwyllgor ran mewn cyd-gyfarfod â'r Pwyllgorau Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a Chyfle Cyfartal i holi'r Comisiynydd Plant ar ei adroddiad blynyddol.

Y Pwyllgor ar yr Ymchwiliad i'r Achosion E.coli yng Nghymru

Ar ôl i'r heintiad E.coli 0157 godi yn y Cymoedd, sefydlodd y Cynulliad Cenedlaethol Bwyllgor o dan Reol Sefydlog 8.1 ar 5 Hydref. Cylch gorchwyl y Pwyllgor oedd ystyried telerau ac amodau ar gyfer ymchwiliad o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005 a chyflwyno adroddiad ar ei gasgliadau erbyn 7 Rhagfyr 2005.

Cyfarfu'r Pwyllgor ddwywaith gan argymhell y dylai ymchwiliad gael ei gynnal o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005. Argymhellodd benodi'r Athro Hugh Pennington yn Gadeirydd ar yr ymchwiliad, ynghyd â'r cylch gorchwyl canlynol:

cynnal ymchwiliad i'r amgylchiadau a arweiniodd at yr achosion E.coli 0157 yn ne Cymru ym mis Medi 2005 ac i'r ffordd yr ymdriniwyd â'r haint; ac

ystyried y goblygiadau ar gyfer y dyfodol a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Cynigiodd y Pwyllgor hefyd y dylai'r holl swyddogaethau eraill o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005 at ddibenion yr ymchwiliad i'r achosion o glefyd E.coli 0157 yn y De gael eu dirprwyo i Brif Weinidog y Cynulliad.

Y Pwyllgor Deddfau

Cynhaliodd y Pwyllgor 34 o gyfarfodydd ac ystyriodd 225 darn o ddeddfwriaeth, gan gyhoeddi adroddiad statudol ar bob Offeryn Statudol.

Ym mis Medi 2005, cafodd cynnig y Pwyllgor y dylid diwygio Rheol Sefydlog 11 er mwyn cryfhau safle'r Pwyllgor o ran defnyddio iaith ryw-benodol a deddfwriaeth heb ei gwneud yn ddwyieithog ei gymeradwyo ac mae'r Rheolau Sefydlog wedi'u newid yn unol â'r cynnig.

Ym mis Chwefror 2006, mynegodd y Pwyllgor ei bryder ynghylch faint o ddeddfwriaeth uniaith oedd yn dal i gael ei gynhyrchu gan y Cynulliad. Ysgrifennodd yr Aelodau at y Gweinidogion i ofyn i'r holl ddeddfwriaeth gael ei chynhyrchu ar ffurf ddwyieithog, a hynny er gwaethaf cyfyngiadau amser a chymhlethdodau.

Ym mis Chwefror 2006, dechreuodd y Pwyllgor adolygiad ar sut y bydd y Cynulliad yn craffu yn dechnegol ar ddeddfwriaeth o fis Mai 2007 ymlaen, gan gasglu tystiolaeth gan ffynonellau mewnol ac allanol (gan gynnwys cynnal y gynhadledd fideo gyntaf erioed yn y Senedd).

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Cynhaliodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus 16 o gyfarfodydd ffurfiol yng nghyfnod yr adroddiad.

Cyfarfu'r Pwyllgor â Syr Michael Lyons a Syr Jeremy Beecham, yr oedd y ddau wedi bod yn cynnal ymchwiliadau ar agweddau ar lywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr, a chyflwyno tystiolaeth i'r ddau ymchwiliad.

Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar oddi wrth dystion ar gyfer ei brosiect craffu ar 'Drefniadau etholiadol yng Nghymru'. Cynhaliwyd ymweliadau rapporteur â Denmarc, yr Iselfiroedd, a Gwlad Belg, lle bu'r Aelodau'n edrych ar wahanol systemau pleidleisio, pleidleisio electronig ac ennyn diddordeb pobl ifanc yn y broses ddemocrataidd.

Ym mis Hydref 2005, penderfynodd y Pwyllgor graffu ar y Mesur Gweinyddu Etholiadau. Cafodd adroddiad interim ar ganfyddiadau prosiect craffu'r Pwyllgor ei anfon at y Pwyllgor yn Nhy'r Cyffredin a oedd yn ymdrin â'r Mesur. Ar ôl cymryd tystiolaeth ysgrifenedig a llafar ar y mesur, cynhyrchodd y Pwyllgor ei adroddiad terfynol ym mis Ionawr 2006, gan argymhell gwelliannau i'r Mesur. Cafodd yr adroddiad ei anfon at holl Aelodau Cymreig Ty'r Arglwyddi a chyfarfu'r Pwyllgor yn anffurfiol ag Arglwyddi i drafod eu gwelliannau arfaethedig. Ar 11 Ionawr 2006, cyflwynodd aelodau'r Pwyllgor gynnig gerbron y cyfarfod llawn yn gofyn i'r Prif Weinidog ofyn i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyflwyno gwelliannau'r Pwyllgor. Cafodd y cynnig ei basio'n unfrydol gydag un gwelliant.

Ym mis Medi 2005, rhoddodd y Gweinidog ateb ysgrifenedig i'r adroddiad ar ymchwiliad y Pwyllgor ar 'Rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru', ac ym mis Tachwedd 2005 cafwyd y newyddion diweddaraf am gynydd Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at weithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor ar 'Gweithredu Strwythurau Rheoli Gwleidyddol Newydd o fewn Llywodraeth Leol.

Ym mis Mawrth 2006, neilltuodd y Pwyllgor gyfarfod cyfan i faterion cydraddoldeb, gan ystyried ymatebion yr awdurdodau i ddeddfwriaeth ddiweddar yng Nghymru ac Adroddiad Cydraddoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2004-05. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n parhau i graffu'n rheolaidd ar ddyletswyddau cydraddoldeb yr awdurdodau lleol.

Pwyllgor Gorchymyn Cychwyn Deddf Archwilio Cyhoeddus 2005

Cafodd y Pwyllgor ei sefydlu ar 4 Mai 2005 i graffu ar Orchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 3) 2005. Cyfarfu'r Pwyllgor unwaith, ar 6 Mehefin 2005, i graffu ar y Gorchymyn sy'n cysoni Adran 54 o'r Ddeddf â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Y Pwyllgor ar Seilwaith y Rheilffyrdd a Gwella Gwasanaethau i Deithwyr

Cafodd y Pwyllgor ei sefydlu ym mis Rhagfyr 2005 yn Bwyllgor ychwanegol, o dan Reol Sefydlog 8.1. Cylch gorchwyl y Pwyllgor oedd:

Ilunio rhaglen o welliannau i seilwaith y rheilffyrdd a gwasanaethau i deithwyr, a hynny mewn perthynas â Chymru.

gwneud argymhellion i'r Cynulliad ynghylch y gwelliannau hynny.

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori cyhoeddus helaeth yn y gwanwyn yn 2006 a chymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar oddi wrth amrywiaeth mawr o fuddiannau. Cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol bedair gwaith yn ystod cyfnod yr adroddiad a chyhoeddodd adroddiad interim ym mis Mawrth a'r adroddiad terfynol ym mis Mehefin 2006.

Y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion

Cafodd y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion ei sefydlu drwy benderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 14 Mehefin 2005 o dan Reol Sefydlog 8.1. Cylch gorchwyl y Pwyllgor oedd:

i) adolygu holl ffynonellau incwm (refeniw a chyfalaf), pa fodd bynnag y caiff ei gynhyrchu, sy'n creu cyllid ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir (gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion);

ii) adolygu'r modd y caiff arian ei ddsbarthu rhwng ysgolion a gynhelir – cynradd ac uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion;

iii) archwilio ac adolygu pa mor ymarferol fyddai cyflwyno system ariannu dair blynedd ar gyfer ysgolion;

iv) ystyried effaith cynlluniau'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth y DU ar gyllid ysgolion;

v) gwneud argymhellion i Gynulliad Cenedlaethol ynghylch symleiddio'r system a'i gwneud yn gliriach.

Cyfarfu'r Pwyllgor naw gwaith yn ystod y flwyddyn a chymerodd dystiolaeth gan amrywiaeth o unigolion a chyrrff gan gynnwys, yn ei gyfarfod ar 30 Mawrth 2006, sesiwn manwl gyda'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad terfynol ym mis Mehefin 2006 a disgwyliid cael ymateb cychwynnol Llywodraeth y Cynulliad yn fuan wedyn.

Pwyllgor Craffu ar Waith Prif Weinidog y Cynulliad

Cyfarfu'r Pwyllgor yn gyhoeddus ddwywaith yn ystod cyfnod yr adroddiad.

Ar 30 Mehefin 2005, cyfarfu'r Pwyllgor ym Mae Caerdydd gan holi'r Prif Weinidog ar Wasanaethau i Bobl Hyn. Craffwyd yn benodol ar yr amcanion strategol sydd wedi'u hadlewyrchu yn 'Cymru: Gwlad Well'; y perfformiad wrth gyflwyno gwasanaethau ac effaith y diwygiadau yn y gwasanaethau cyhoeddus a amlinellwyd yn 'Creu'r Cysylltiadau'; a datblygiadau arfaethedig at y dyfodol gan gynnwys Comisiynydd Pobl Hyn.

Ar 2 Chwefror 2006, cafodd y Prif Weinidog ei holi mewn cyfarfod ym Mae Colwyn ar ddau bwnc – Trafnidiaeth a Diwygio'r Cyrff sy'n cael eu noddi gan y Cynulliad.

Y Pwyllgor ar Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus

Cyfarfu'r Pwyllgor am y tro olaf ar 28 Ebrill 2005 i gytuno ar ei adroddiad drafft, a gafodd ei lansio ym mis Mai 2005.

Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Cynhaliodd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio 19 o gyfarfodydd ffurfiol, un ohonyn nhw yn Abertawe ac un ym Mae Colwyn. O'r cyfarfodydd yma, roedd tri yn ychwanegol at yr amserlen y cytunwyd arni gan y cyfarfod llawn (o Ebrill 2005 i Ragfyr 2005). Defnyddiodd y Pwyllgor y cyfarfodydd yma i fwrw ymlaen â dau adolygiad polisi y mae'r Gweinidog yn ymneilltuo ohonyn nhw. Ymwelodd y Pwyllgor â Corus Living Solutions a Dangerpoint yn y Gogledd ym mis Mawrth 2006. Cynhaliodd aelodau'r Pwyllgor ymweliad â Chasnewydd mewn cysylltiad ag adolygiad y Pwyllgor ar gamddefnyddio sylweddau gan orffen y rhaglen o ymweliadau a ddechreuodd yn nhymor gwanwyn 2005.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei Adolygiad Polisi ar Gamddefnyddio Sylweddau –Gwasanaethau Trin ym mis Mawrth 2006 a dechrau cymryd tystiolaeth ar ei adolygiad ar Gamddefnyddio Sylweddau – Atal.

Cynhaliodd y Pwyllgor adolygiad ar Ailstrwythuro'r heddluoedd yn nhymor yr hydref a gafodd ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2005, a dechrau adolygiad arall i edrych ar Strwythurau Democrataidd Heddlu i Gymru Gyfan yng ngwanwyn 2006.

Yn ystod y flwyddyn, bu'n ystyried Rheoliadau Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru a Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2006.

Ystyriodd y Pwyllgor hefyd y Mesur Elusennau drafft a'r Mesur Plant a Mabwysiadu drafft a throsglwyddo'i sylwadau, drwy gyfrwng y Gweinidog, i'r Adrannau yn Whitehall y tarddod y mesurau ohonyn nhw.

Ym mis Mawrth 2006, cymerodd aelodau'r Pwyllgor ran mewn cyd-gyfarfod â'r Pwyllgorau Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyfle Cyfartal ac Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i holi'r Comisiynydd Plant ar ei adroddiad blynyddol.

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol dair gwaith yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cyfarfod i ystyried cwyn yn erbyn Aelod o'r Cynulliad.

Roedd y prif faterion yr ymdriniodd y Pwyllgor â nhw yn cynnwys:

Trefniadau a chanllawiau diwygiedig mewn perthynas â darpariaethau yn y Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau;

Gweithredu'r argymhellion yn adolygiad Woodhouse ar Safonau Ymddygiad;

Goblygiadau Mesur Llywodraeth Cymru ar gyfer Safonau; a

Gweithredu gweithdrefn apelio mewn perthynas â chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad.

Y Pwyllgorau Rhanbarth

Ym mis Chwefror 2005, cytunodd y Cynulliad y dylai newid ffiniau ei bwyllgorau rhanbarth i adlewyrchu ardaloedd daearyddol Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad. O ganlyniad i hynny, cafodd pum pwyllgor rhanbarth eu sefydlu ym mis Mawrth 2005.

Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin

Cynhaliodd y Pwyllgor bedwar cyfarfod mewn lleoliadau yng Nghaerfyrddin, Aberhonddu, Arberth ac Aberteifi.

Yn ystod y cyfarfodydd yma, ystyriodd y Pwyllgor Ddatblygu Cynaliadwy; Mynediad Cymunedol i'r Oedrannus, Her Iechyd Cymru ac Anghenion Addysgol Arbennig.

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan gyrff perthnasol yn rhanbarth y Canolbarth, gan gynnwys y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Disgyblion Ysgol Gynradd Tre-Ioan, Caerfyrddin, myfyriwr o Goleg y Drindod, Caerfyrddin, Carmarthen Environmental, Mynediad Cymunedol i'r Oedrannus, Swyddogion Datblygu Cymunedol (PAVO), Prifysgol y Drydedd Oes yn Aberhonddu, Dial a Ride Aberhonddu, Cyngor Sir Penfro, Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro, Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Is-adran Cynnal Disgyblion Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Sir Ceredigion, SNAP Cymru, a RHAG.

Achubodd aelodau'r cyhoedd ar y cyfle i holi nifer o gyflwynwyr ac aelodau'r Pwyllgor ar y pynciau yma, a hefyd i godi materion o bryder lleol. Lle'r oedd yn briodol, cafodd y pryderon yma eu trosglwyddo i'r Gweinidog perthnasol yn y Cynulliad er mwyn i gamau gael eu cymryd.

Ar gyfartaledd dros y flwyddyn, roedd 33 o aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd

Cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith mewn lleoliadau ym Miwmares, Llanelwy, Wrecsam, Caernarfon, Rhuthun a Chricieth.

Rhoddodd y Pwyllgor bwyslais ar gael y cyhoedd i gymryd rhan. Ar ôl pob cyfarfod, paratôdd y Pwyllgor adroddiad i grynhoi barn y rhai a fu'n bresennol. Cafodd copiau eu cyflwyno i'r Gweinidog perthnasol yn y Cynulliad er mwyn i gamau gael eu cymryd. Trafododd y Pwyllgor y pynciau canlynol yng nghyd-destun y rhanbarth: cludiant cyhoeddus, gofal hosbis, meddygaeth gyflenwol a lles, deintyddiaeth, mynediad agored i gefn gwlad a thai fforddiadwy.

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan gynrychiolwyr darparwyr gwasanaethau cludiant cyhoeddus a grwpiau teithwyr, hosbisau yn rhanbarth y Gogledd a Rhwydwaith Gofal Lliniarol y Gogledd, ymddiriedolaethau iechyd a darparwyr gofal iechyd lleol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, NFU Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Heddlu'r Gogledd, Cymdeithas Cerddwyr Cymru, cynghorau a sefydliadau tai.

Ar gyfartaledd dros y flwyddyn, roedd 82 o aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

Pwyllgor Rhanbarth Canol De Cymru

Cynhaliodd y Pwyllgor dri chyfarfod yn ystod 2005-06 mewn lleoliadau yn Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (APCC), Gwesty'r Heritage Park, Trehafod yn ymyl Pontypridd a'r Neuadd Goffa, Gladstone Road, Y Barri.

Yn ystod y cyfarfodydd yma, ystyriodd y Pwyllgor: Trafnidiaeth Integredig, Tai Fforddiadwy a Gwasanaethau Deintyddol.

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan Ymchwil Trafnidiaeth Cymru, Sustrans, Cymdeithas Trafnidiaeth y De-ddwyrain, Shamrock Coaches, Arriva Trains Wales Ltd, Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cymdeithas Tai Hafod, Sefydliad Tai Siartredig Cymru, Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, Cymdeithas yr Ymarferwyr Deintyddol a Chymdeithas Ddeintyddol Prydain.

Achubodd aelodau'r cyhoedd ar y cyfle i holi nifer o gyflwynwyr ac aelodau'r Pwyllgor ar y pynciau yma, a hefyd i godi materion o bryder lleol. Lle'r oedd yn briodol, cafodd y pryderon yma eu trosglwyddo i'r Gweinidog perthnasol yn y Cynulliad er mwyn i gamau gael eu cymryd.

Ar gyfartaledd dros y flwyddyn, roedd 17 o aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

Pwyllgor Rhanbarth Dwyrain De Cymru

Cyfarfu Pwyllgor Rhanbarth Dwyrain De Cymru dair gwaith yn ystod 2005-06, mewn lleoliadau yng Nghasnewydd, y Fenni a Chendl

Hoeliodd y Pwyllgor sylw ar un pwnc ym mhob cyfarfod. Y pynciau a ystyriwyd oedd: uno'r cyrff a oedd yn cael eu noddi gan y Cynulliad yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, y ddarpariaeth Damweiniau ac Achosion Brys yn y De-ddwyrain a Strategaeth Blaenau'r Cymoedd – y rhagolygon ar gyfer adfywio'r economi.

Cafodd y cyhoedd wahoddiad i gymryd rhan ym mhob cyfarfod a chafodd llawer o bwyntiau eu codi a'u hateb yn llawn ac yn uniongyrchol ym mhob cyfarfod. Paratôdd y Pwyllgor adroddiad ar bob cyfarfod, a gafodd ei gylchredeg i bawb a fu'n bresennol a'i osod ar y Rhyngwrwyd. Cafodd y cofnodion a'r papurau perthnasol eu hanfon at y Gweinidog priodol er mwyn i gamau gael eu cymryd.

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan gynrychiolwyr y canlynol: Awdurdod Datblygu Cymru, Siambr Masnach Casnewydd a Gwent, Bwrdd Croeso Cymru, Capital Regional

Tourism, Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy, Adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Nevill Hall, Coleg Brenhinol y Nyrsys, Gwasanaeth Ambiwylans Cymru, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad Cenedlaethol, Cyngor Iechyd Cymunedol Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Ffederasiwn y Busnesau Bach yng Nghymru.

Ar gyfartaledd dros y flwyddyn, roedd 27 o aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

Pwyllgor Rhanbarth Gorllewin De Cymru

Cyfarfu Pwyllgor Rhanbarth Gorllewin De Cymru dair gwaith yn ystod 2005-06, a hynny yn Abertawe, Pen-coed a Gwauncaegurwen.

Ar 20 Mai 2005, cyfarfu'r Pwyllgor yng Nghanolfan Dylan Thomas, Abertawe. Cafodd Janet Davies ei hethol yn Gadeirydd am y flwyddyn. Pwnc y cyfarfod oedd adfywio economi'r cymoedd a chafodd copi o gofnodion y cyfarfod ei anfon at y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.

Cyfarfu'r Pwyllgor eto ar 17 Mawrth 2006 ym Mhen-coed, pryd y trafodwyd addysg i ddisgyblion 16 i 19 oed, gan gyfeirio'n arbennig at Fagloriaeth Cymru. Clywodd y Pwyllgor gan fyfyrwyr a oedd yn astudio ar gyfer y cymhwyster neu a oedd wedi'i ennill yn yr ysgol neu'r coleg, gan roi adroddiad cadarnhaol am eu profiad. Cafodd cofnodion y cyfarfod eu hanfon at y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes a Chadeirydd y Pwyllgor pwnc.

Ar 9 Mehefin cyfarfu'r Pwyllgor yng Ngwauncaegurwen. Ynni oedd y pwnc a sylfaen y drafodaeth oedd papur a gyflwynwyd ym mis Mawrth i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, lle nododd y Gweinidog ddatblygiadau ym mholisi ynni Cymru wrth i'r Llywodraeth symud tuag at bennu manylion terfynol Map Llwybr Ynni Cymru. Cafodd cofnodion y cyfarfod eu hanfon at y Gweinidog.

Ym mhob cyfarfod cafwyd cyfle i'r cyhoedd holi'r cyflwynwyr a'r aelodau a chyflwyno sylwadau ar y pwnc.

Ar gyfartaledd dros y flwyddyn, roedd 25 o aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

Y Cyfle i Weld Gwybodaeth

Mae Pwyllgor y Ty yn cynnwys yn yr Adroddiad yma wybodaeth fanwl am y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i'r Aelodau, gan gynnwys eu cyflogau a'u lwfansau. Mae Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn dal i gael ceisiadau am wybodaeth sydd wedi'u trin a'u trafod yn unol â'r gweithdrefnau a gofynion y ddeddfwriaeth. Mae cyfanswm o 40 o geisiadau wedi dod i law yn ystod 2005/06. Mae'r Pwyllgor yn cael adroddiadau rheolaidd ar geisiadau am wybodaeth.

Amcanion y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2005/06

Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad i adolygu ei ymagwedd at Ryddid Gwybodaeth a rheoli cofnodion yng ngoleuni'r profiad cynnar o roi Deddf 2000 ar waith.

·1 Mae ceisiadau am wybodaeth yn dal i gael eu trafod yn unol â'r canllawiau. Mae'r Cynghorydd ar y Cyfle i Weld Gwybodaeth yn cydweithio'n agos â chyd-drefnwyr yr adrannau neu'r canghennau ar y mwyafrif o'r ceisiadau i helpu i sefydlu arbenigedd a chyfarwyddineb yn yr unedau busnes yma.

·2 Mae'r Cyfle i Weld Gwybodaeth a Rheoli Cofnodion wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Ymsefydlu i staff newydd; mae'r eitemau yma hefyd yn cael sylw yn yr ymsefydlu sy'n cael ei gynnig gan MRS i staff cymorth newydd Aelodau o'r Cynulliad.

·3 Mae Prosiect Rheoli Cofnodion wedi'i sefydlu er mwyn i'r rheolaeth ar gofnodion cofrestredig y Gwasanaeth Seneddol symud o'r Gwasanaeth Cofnodion sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan Lywodraeth y Cynulliad i'r Gwasanaeth Seneddol. Bydd y Prosiect hefyd yn adolygu'r strwythur, y polisi a'r canllawiau ar gyfer cadw cofnodion yn y Gwasanaeth Seneddol yn unol â'r gofynion nawr ac yn y dyfodol. Bydd y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn ar restrau cofnodion yn cael ei godi gan y prosiect yma.

Adnoddau Dynol

Crynodeb o'r Staff Cyflogedig

Mae'r tabl isod yn dangos terfyn uchaf staff a nifer y staff parhaol a fu'n gweithio i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad rhwng 1 Ebrill 2005 a 31 Mawrth 2006.

Mis/Blwyddyn	Terfyn Uchaf Staff	Nifer y Staff Parhaol mewn Swyddi
01 Ebrill 2005	336	285
31 Mawrth 2006	337	281

Ar 31 Mawrth 2006 roedd sefyllfa staffio Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad fel a ganlyn:-

Adran/Cangen	Nifer y staff mewn swyddi
Swyddfa Breifat y Llywydd	5
Swyddfa'r Clerc a'r Dirprwy Glerc	9

Gwasanaethau Cyfreithiol	5
Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad	
Swyddfa'r Cyfarwyddwr	2
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	9
Addysg a Gwybodaeth i'r Cyhoedd	36
Y Wasg a'r Cyfryngau	2
Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi Seneddol	29
Gwasanaethau Corfforaethol	
Swyddfa'r Cyfarwyddwr	-
Ffioedd a Chyllid	17
Adnoddau Dynol a'r TUS	16
Y Swyddfa a Chyfleusterau	76
Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau	
Ymchwil yr Aelodau	34
Y Gwasanaeth Pwyllgorau	31
Gwasanaethau'r Siambr	
Ysgrifenyddiaeth y Siambr	6
Y Swyddfa Gyflwyno	4
Cyfanswm	281

Mae nifer y staff sydd mewn swyddi yn cynnwys y graddau canlynol.

TS	PS	EO	HEO	SEO	G7	G6	G5	G3	G2
106	2	54	58	33	20	3	3	1	1

Crynodeb Recriwtio

Trwy gydol y cyfnod 1 Ebrill 2005 i 31 Mawrth 2006, cynhaliodd Gwasanaeth

Seneddol y Cynulliad 25 o gynlluniau recriwtio allanol gan recriwtio ar gyfer 38 o swyddi. Gwnaed 36 o gynigion cychwynnol ac arweiniodd 35 ohonyn nhw at benodiad.

Yn ychwanegol, cynigwyd lle wrth gefn i 25 o ymgeiswyr, ac mae 8 o'r ymgeiswyr hynny wedi'u penodi.

Y Gyllideb

Cyfanswm cyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar gyfer 2005-2006 oedd £29,568,000. Alldro net y flwyddyn, yn ddarostyngedig i archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfrifon y Cynulliad, oedd £28,857,587 – sef tanwariant o 2.4%.

Adran	Cyllideb (£)	Gwariant Net (£)	Amrywiant (%)
Costau Rhedeg Uniongyrchol – Staff			
Swyddfa'r Llywydd	188,612	190,588	1%
Swyddfa'r Clerc	484,214	477,973	-1%
Cyfathrebu'r Cynulliad	2,689,400	2,653,200	-1%
Gwasanaethau'r Siambr	292,092	272,478	-7%
Gwasanaethau Cyfreithiol	325,940	326,050	0%
Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau a'r Gwasanaeth Pwyllgorau	2,290,234	2,262,051	-1%
Gwasanaethau Corfforaethol	2,650,508	2,579,194	-3%
Cronfa heb ei chlustnodi	162,000	0	-100%
CYFANSWM Y COSTAU STAFF	9,083,000	8,761,534	-4%
Gwariant Gweinyddol Cyffredinol			
Swyddfa'r Llywydd	6,500	6,001	-8%
Swyddfa'r Clerc	1,500	2,862	91%
Cyfathrebu'r Cynulliad	2,633,946	2,654,688	1%
Gwasanaethau'r Siambr	75,000	51,277	-32%
Gwasanaethau Cyfreithiol	25,000	25,000	0%
Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau a'r Gwasanaeth Pwyllgorau	352,000	295,277	-16%
Gwasanaethau Corfforaethol	5,683,883	5,762,873	1%

Cronfa heb ei chlustnodi	149,171	0	-100%
CYFANSWM Y GWEINYDDU CYFFREDINOL	8,927,000	8,797,978	-1%
Tâl a Lwfansau'r Aelodau	10,029,000	9,749,254	-3%
Cyfalaf	1,329,000	1,389,589	5%
Cost Cyfalaf a Dibrisiant	200,000	159,232	-20%
CYFANSWM Y GWARIANT NET	29,568,000	28,857,587	-2%

Y manau mwyaf arwyddocaol lle cafwyd tanwariant oedd:

Cronfeydd heb eu clustnodi: a gronnodd yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu gostyngiadau a gymeradwywyd yn y gwariant a ragwelwyd, gan ddarparu cronfa wrth gefn i ariannu unrhyw geisiadau am ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn – £311,000.

Tâl a lwfansau'r Aelodau: cyllideb adweithiol yw hon ac mae'r tanwario'n adlewyrchu'r ffaith bod yr hawliadau eu hunain yn is na'r hyn a ragwelwyd – £280,000.

Darlledu: chafodd cynlluniau i sefydlu gwefan newydd ar gyfer gwe-ddarlledu mo'u symud ymlaen yn ystod y flwyddyn, ond yn eu lle cafwyd prosiect gwefan newydd ar y rhyngwrdd i'w ddatblygu yn 2006/7 – £160,000.

Ystad u Cynulliad

Mae ystâd y Cynulliad ym mae Caerdydd yn cynnwys swyddfeydd y Cynulliad ac Adeilad Pen y Pier. Fe fu'r swyddfeydd yn llety dros dro i'r Siambr a'r Ystafelloedd Pwyllgora. Ar 7 Chwefror 2006, agorodd adeilad Siambr y Cynulliad, a ddyluniwyd gan Richard Rogers, sef y Senedd, i'r cyhoedd ar gyfer y cyfarfod llawn cyntaf yn y Siambr newydd. Cafodd yr adeilad ei agor yn swyddogol gan Ei Mawrhydi y Frenhines ar 1 Mawrth 2006. Mae'r adeilad yn cynnwys y Siambr, Ystafelloedd Pwyllgora ac orielau cyhoeddus a manau agored cyhoeddus sy'n cynnwys manau derbyn, manau ar gyfer digwyddiadau a chaffi cyhoeddus. Mae nifer o fannau cyfarfod a swyddfeydd wedi'u darparu hefyd ar lefel y Siambr i gynnal busnes y Cynulliad. Mae Pwyllgor y Ty wedi cymeradwyo'r adnoddau staff a'r adnoddau eraill sy'n angenrheidiol i redeg a gweithredu'r adeilad o ddydd i ddydd. Bydd Pwyllgor y Ty yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb ffurfiol dros yr adeilad newydd maes o law.

Mae gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad swyddfa a Chanolfan Ymwelwyr hefyd ym Mae Colwyn. Mae yna bedwar tîm rhanbarthol, wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, Bae Colwyn, Caerfyrddin a Llandrindod.

Amcanion a Pherfformaid 2005-06

Amcanion	Camau a Gymerwyd

1. Galluogi Aelodau'r Cynulliad drwy wella ansawdd busnes y Cynulliad, trafodion y Pwyllgorau a'r prosesau craffu yn y Cynulliad, ac wedyn gwella cynhyrchion gwaith y Cynulliad.

-1 Cafodd yr ail gyfarfod ei gynnal yn swyddfa'r Cynulliad ym Mae Colwyn. Craffodd y Pwyllgor ar waith y Prif Weinidog ynglyn â Thrafnidiaeth a chyfuno'r cyrff cyhoeddus sy'n cael eu noddi gan y Cynulliad.

-2 Yn sgil sefydlu pwyllgorau ad hoc ychwanegol a dychwelyd ym mis Ionawr 2006 i gylch pwyllgora fesul pythefnos, roedd y gyfradd gydymffurfio â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) rhwng y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi a'r MRCS yn 79%. Ffactor arall a gyfrannodd at hyn oedd anawsterau wrth recriwtio staff â'r medrau addas.

-3 Cafodd tri sesiwn hyfforddi eu trefnu i Aelodau a swyddogion y Cynulliad ym mis Gorffennaf, Hydref a Thachwedd 2005. Dylai'r canllaw craffu gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2006.

-4 Ers mis Ionawr 2006, mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (MRS) wedi bod yn cyd-drefnu papur ymchwil misol i Banel y Cadeiryddion (POC) a'r Pwyllgor Busnes i olrhain cynnydd mesurau sy'n berthnasol i Gymru drwy Senedd San Steffan. Mae'r papur yn cael ei gyhoeddi hefyd fel papur ymchwil i'r holl Aelodau. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y pwerau sy'n cael eu rhoi gan bob Mesur a gyfeirir at Bwyllgorau'r Cynulliad ac am i ba raddau y maen nhw'n gwireddu'r ymrwymiad a roddwyd yn y Papur Gwyn Trefn Lywodraethu Well i Gymru i roi pwerau ehangach a mwy caniataol i'r Cynulliad. Mae'r Pwyllgorau wedi parhau i graffu ar y mesurau sy'n cael eu cyfeirio atyn nhw ac mae'r MRS wedi eu briffio yn unol â hynny.

-5 Erbyn hyn, mae'r pwyllgorau ar yr ail flwyddyn o weithredu'r ymagwedd strategol at faterion yr UE y cytunwyd arni gan EEAC a POC. Mae nifer o Bwyllgorau, yn enwedig EEAC, EPC, EIN ac HSS, wedi craffu'n fanwl ar gynigion polisi a chynigion deddfu gan yr UE ar nifer o eitemau. Cafodd y broses ei hadolygu ar ddiwedd 2005 gyda chefnogaeth bendant y Pwyllgorau. Cytunodd EEAC ar argymhellion ychwanegol i gryfhau'r broses ym mis Ionawr 2006 a chafodd y rhain eu mabwysiadu gan POC ym mis Mawrth 2006. Mae'r rhain yn cael eu rhoi ar waith bellach.

-6 Mae cydweithio agos parhaus rhwng Cysylltiadau'r Cyfryngau a Chlercod Pwyllgorau wedi helpu i sicrhau sylw helaeth i nifer o faterion, yn enwedig adroddiadau Archwilio ac adolygiadau polisi, a hynny mewn print ac yn y cyfryngau darlledu. Mae'r cydweithio agos yma, a chysylltiadau da â'r cyfryngau, wedi arwain at adroddiadau

cywir ar feysydd cymhleth fel y Pwyllgor E.coli.

-7 Mae'r pwyllgorau pwnc yn parhau i ddilyn adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a'u hargymhellion. Er enghraifft, ystyriodd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad oblygiadau argymhelliad mewn adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio wrth fonitro'r cynnydd ar argymhellion ei ymchwiliad ei hun ar reoli gwastraff.

-8 Cynorthwywyd Pwyllgor Mesur Llywodraeth Cymru i graffu ar y Mesur. Mae goblygiadau'r Mesur a'r gwahanol ddadleuon yn y Cynulliad ac yn Senedd San Steffan wedi'u monitro ac wedi'u cofnodi. Yn benodol, bydd hyn yn bwydo'r gwaith ar y Rheolau Sefydlog diwygiedig a fydd yn y pen draw yn effeithio ar y prosesau y bydd eu hangen ar ôl 2007.

2. Archwilio ac ymateb yn effeithiol i ddymuniad y Cynulliad i sicrhau gwahaniad rhwng ei gangen ddeddfu a'i gangen lywodraethu ac i wella'i bwerau deddfu drwy gynllunio ar gyfer y goblygiadau.

-1 Mae'r rhaglen a strwythur y prosiect wedi gweithredu'n effeithiol drwy gydol y flwyddyn. Drwy ddefnyddio disgyblaethau rheoli prosiect priodol, cafodd ymagwedd drefnus ei harddel at y tasgau o dan sylw. Mae amserlenni wedi'u datblygu ar gyfer cyflawni popeth y mae angen ei gyflawni er mwyn gwahanu erbyn mis Mai 2007, ac mae'r risg wedi'i hasesu'n briodol. Mae Grwp Gorchwyl a Gorffen, o dan gyd-gadeiryddiaeth y Clerc ac Uwch-gyfarwyddwr Llywodraeth y Cynulliad, wedi sicrhau lefel uwch o ymglymiad yn y broses o du Llywodraeth y Cynulliad. Daeth y gwahaniaeth rhwng gwahanu gweinyddol a gwahanu cyfreithiol yn fwyfwy amherthnasol wrth i'r flwyddyn fynd heibio, ond cafodd camau sylweddol ymlaen eu cymryd tuag at sicrhau prosiectau gwahanu ar wahân.

-2 Mae Pwyllgor y Ty wedi cael gwybodaeth yn gyson. Mae cyfathrebu â'r staff wedi bod yn flaenoriaeth uchel, er bod peth rhwystredigaeth erbyn diwedd y flwyddyn ymhlith y staff nad oedd penderfyniadau wedi'u gwneud ar faterion o bwys iddyn nhw.

-3 Mae'r Gwasanaeth Seneddol wedi rhoi cyngor adeiladol i'r Llywodraeth ar nifer o faterion manwl sy'n codi o'r ddeddfwriaeth. Rhoddwyd cymorth ar gyfer proses wleidyddol craffu ar y Mesur hefyd.

-4 Mae astudiaeth lefel-uchel ar strwythurau'r Gwasanaeth Seneddol wedi'i chynnal gan arbenigydd allanol, sydd i fod i gyflwyno adroddiad ym mis Ebrill 2006. Mae ymwybyddiaeth eang o'r heriau a ddaw yn sgil gwasanaeth seneddol annibynnol, y bydd ganddo bwerau ehangach. Mae meithrin yr arbenigedd angenrheidiol ymhlith y staff yn

	<p>dal yn her o bwys. Cafodd rhywfaint o staff newydd eu recriwtio i swyddi allweddol yn ystod y flwyddyn, ond mae'n annhebyg y bydd modd cynyddu nifer y staff drwy'r trwch yn 2006-07.</p> <p>·5 Mae peth ansicrwydd yn parhau ynghylch y galwadau ar y gwasanaethau cyfreithiol y bydd cyfrifoldebau deddfu newydd y Cynulliad yn eu creu.</p> <p>·6 Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud tuag at nodi costau'r gwahanu, a chostau'r gwasanaethau newydd y bydd angen i'r Gwasanaeth Seneddol eu darparu. Ar yr un pryd, mae Pwyllgor y Ty wedi cael gwybodaeth sy'n caniatáu i'r Aelodau benderfynu ar flocliau adeiladu cyllideb y Gwasanaeth Seneddol, yn hytrach na gofyn iddo dreiglo'r ddarpariaeth flaenorol ymlaen. Dylai gwerth yr ymarferion yma ddod i'r amlwg ym mhroses pennu cyllideb 2007-08.</p>
<p>3. Gweithredu ar farn yr Aelodau, eu staff a'n cwsmeriaid allanol fel y'i mynegir mewn adborth perthnasol, arolygon boddhad a mecanweithiau perthnasol eraill er mwyn gwella'r gwasanaethau a ddarparwn ar gyfer ein cwsmeriaid ac, os oes modd, gwella'u hamgyffred nhw o'r gwasanaethau hynny.</p>	<ul style="list-style-type: none"> · Y perfformiad ar y dangosyddion perfformiad allweddol wedi cynyddu ym mhob maes. · Siarter Ymwelwyr wedi'i chwblhau ac wedi'i chymeradwyo gan yr Uwch Dîm Rheoli. · Y camau wedi'u cwblhau. · Yn parhau.
<p>4. Gwneud cyfraniad priodol i gyflwyniad adeilad siambr newydd ardderchog, yn brydlon ac o fewn y gyllideb erbyn diwedd 2005 a bod yn barod i gymryd cyfrifoldebau Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad pan gwblheir yr adeilad.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ·1 Adolygiad ffurfiol ar y prosiect heb ei gynnal eto, i'w gynnal yn fuan. Cafodd yr adeilad ei gwblhau yn hwyr ond yn agos at y gyllideb ac mae wedi ennyn derbyniad da. ·2 Cafodd y gwaith dodrefnu ei orffen i raddau helaeth erbyn diwedd Ionawr 2006, ac agorwyd yr adeilad ar 7 Chwefror 2006. ·3 Cafodd yr adeilad ei gwblhau yn hwyrach na'r disgwyl, gan ohirio'r hyfforddiant terfynol, ond cafodd y cynllunio a'r hyfforddiant gweithredol eu cwblhau cyn iddo gael ei agor. ·4 Mae'r camau cychwynnol wedi'u cymryd i ystyried yr opsiynau ar gyfer gwella cyfleusterau bwyta'r Aelodau a'r ddarpariaeth ar gyfer gofal plant.

	<p>-5 Darpariaeth TGCh y Senedd yn ei lle.</p> <p>-6 Agoriad llwyddiannus wedi'i gynnal ac wedi denu sylw eang yn y cyfryngau, gan sicrhau effaith gadarnhaol y Senedd.</p>
<p>5. Cadw enw da'r Cynulliad am ddefnyddio TGCh yn arloesol trwy gydol y cyfnod trosglwyddo ar gyfer partneriaeth Merlin a sicrhau bod gofynion holl Aelodau'r Cynulliad a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer yn cael y flaenoriaeth briodol.</p>	<p>-1 Cynnydd parhaus wedi'i wneud mewn ymgynghori â'r Aelodau a rhoi gwybodaeth iddyn nhw, yn enwedig i baratoi at ymarferion tendro ar gyfer gwasanaethau TGCh.</p> <p>-2 Prosiectau sy'n gysylltiedig â Llywodraeth y Cynulliad fu ffocws y Bartneriaeth o hyd, ond mae ymdrechion sylweddol wedi'u gwneud i wella'r broses drosglwyddo, sydd wedi'i chwblhau bellach ar gyfer y rhan fwyaf o'r Gwasanaeth Seneddol. Mae angen trosglwyddo'r Aelodau yn llwyr o hyd. Mae staff y Gwasanaeth Seneddol yn parhau i roi pwysau i wella'r gwasanaeth ac ateb anghenion yr Aelodau.</p> <p>-3 Mae'r system lywodraethu yn ei lle. Mae arian rheoli newid ar gyfer y Gwasanaeth Seneddol wedi'i nodi ac wedi'i sicrhau. Mae Pwyllgor y Ty wedi penderfynu ar raniad y lefelau gwasanaeth ac wedi penderfynu tendro ar gyfer contract TGCh ar wahân, ac mae'r paratoi i sicrhau hyn wedi dechrau.</p> <p>-1 Mae'r prosiect wedi'i symud ymlaen mor bell â phosibl ond wedi'i ohirio o ganlyniad i gwestiynau'r Pwyllgor ar y fanyleb a'r cwmpas. Yn cael ei ailgloriannu ar hyn o bryd i weld a ddylai gael ei ehangu.</p> <p>-2 Fel yr adolygiad interim. Contract gwefan y rhyngwrwyd allan ar dendr, gan anelu at ei gwblhau erbyn 2007. Gwefan ar wahân dros dro yn ei lle yn sgil ymdrechion arwyddocaol gan dîm TGCh y Gwasanaeth Seneddol.</p> <p>-3 Deunydd briffio wedi'i ddarparu.</p> <p>-4 U-Access heb fod ar gael eto, ond bwriedir ei gael erbyn hydref 2006</p> <p>-5 Ymweliadau wedi dechrau.</p>

6. Gweithredu a gwneud cynnydd ar y polisiâu a'r strategaethau trawsbynciol canlynol:

(a) Datganiad Gwasanaethau Dwyieithog Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad

(b) Cyfraniad Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad at Gynllun Datblygu Cynaliadwy diwygiedig y Cynulliad;

(c) Elfen Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn y Cynllun Cydraddoldeb Hil.

(d) Prif-ffrydio Cydraddoldeb

(e) Cynllun Gwahaniaethu ar sail Anabledd (amcan newydd yn yr adolygiad canol blwyddyn)

(a) Monitro canol blwyddyn wedi'i wneud heb nodi'r un pwnc llosg. Monitro diwedd blwyddyn wedi dechrau a disgwylir adrodd i Bwyllgor y Ty ym mis Mehefin.

(b) Yr adnoddau'n dal yn gyfyngedig er bod y Cynllun Gweithredu'n parhau. Lefel 5 y Ddraig Werdd wedi'i chyrraedd. "Tîm Gwyrdd" wedi'i sefydlu fel grwp o staff y Gwasanaeth Seneddol sydd â diddordeb ac a fydd yn helpu i fonitro a gweithredu fel hyrwyddwyr cynaliadwyedd.

(c) Mae'r cynnydd wrth weithredu'r Cynllun yn cael ei adolygu gan Grwp Llywio Cydraddoldeb y Gwasanaeth Seneddol a gafodd ei sefydlu ym mis Hydref 2005.

(d) Mae sesiynau ymwybyddiaeth cydraddoldeb wedi'u cynnal ar gyfer pob un o'r prif bleidiau gwleidyddol ar ôl eu cyfarfodydd grwp. Caiff ymchwilyr hyfforddiant arbenigol yn 2006-07. Cafodd cynnydd ei wneud i nodi anghenion hyfforddi penodol yn 2005-06. Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth cydraddoldeb wedi'i roi i holl staff y rheng flaen ac i aelodau newydd o'r staff.

Mae Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Gwasanaeth Seneddol wedi gweithio gyda'r staff clericio ac ymchwilio i helpu'r pwyllgorau pwnc wrth iddyn nhw ymdrin ag eitemau agenda sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb yn eu meysydd polisi.

7. Chwilio am welliannau yn ymatebion y staff i'r cwestiynau allweddol yn Arolwg Agwedd y Staff yn 2005, yn enwedig felly o ran themâu rheoli a chyfathrebu ac ymddygiad yn y gwaith.

